

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

Dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai
Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill

Rhif: WG37273

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y goron Digital ISBN 978-1-78964-889-8

Manylion cyswllt **I gael rhagor o wybodaeth:**
Tîm Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Crynodeb	4
2.1	Datblygu dangosyddion arfaethedig	4
2.2.	Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.....	5
2.3.	Adolygiad o adborth yr ymgynghoriad	5
2.4.	Dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019 (ar ôl yr ymgynghoriad).....	6
3.	Trosolwg	8
4.	Incwm.....	10
5.	Cyflogaeth	14
6.	Iechyd.....	16
7.	Addysg.....	23
8.	Mynediad at Wasanaethau	28
9.	Tai.....	35
10.	Yr Amgylchedd Ffisegol	42
11.	Diogelwch cymunedol	46
12.	Pwysoli.....	48
13.	Y camau nesaf	49
	Atodiad 1 - Sefydliadau a ymatebodd i ymgynghoriad MALIC	52

1. Cyflwyniad

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny o'r wlad sydd â'r crynadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol ac yn cael ei lunio gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru.

Cafodd y mynegai diweddaraf ei gyhoeddi yn 2014. Mae gwybodaeth am MALIC 2014 ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#). Bydd mynegai wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi yn ystod Tachwedd 2019, gan ddefnyddio data mwy diweddar pan fo hynny'n bosibl a dangosyddion newydd yn dilyn adolygiad o'r data sydd ar gael.

Cynhaliwyd [ymgyngoriad](#) ar ddangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019 rhwng 22 Hydref 2018 a 17 Rhagfyr 2018. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd cyflwyno ein cynigion ar gyfer dangosyddion i'w cynnwys ym MALIC 2019 i'w hadolygu'n feirniadol.

Ymgynghorwyd ar y cam hwn er mwyn rhoi amser i weithredu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, pan fo hynny'n bosibl, cyn llunio'r manylion terfynol ar gyfer MALIC 2019.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn amlinellu datblygiadau diweddar, gan gynnwys y rhai a wnaed yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid yw'n ailadrodd yr holl fanylion yn y [ddogfen ymgynghori](#) wreiddiol, felly efallai y byddai'n ddefnyddiol i ddarllenwyr yr adroddiad hwn gael y ddogfen honno wrth law i gyfeirio ati.

2. Crynodeb

2.1 Datblygu dangosyddion arfaethedig

Er mwyn datblygu'r dangosyddion arfaethedig, bu ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda saith gweithgor maes ar wahân. Bu'r gweithgornau hyn yn adolygu dangosyddion a oedd wedi'u cynnwys mewn mynegeion blaenorol ac yn ystyried dangosyddion newydd a oedd yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn y mynegai hwn. Roedd tri grŵp cyffredinol hefyd (bwrdd prosiect, grŵp cynghori allanol yn bennaf a grŵp llywio) yn llunio cynlluniau mwy cyffredinol ar gyfer MALIC 2019. Ceir gwybodaeth am rôl y grwpiau a'r rhestr o feini prawf i'r dangosyddion yn adran 4 ein [dogfen ymgynghori](#).

Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, ers 2014 bu llawer o newidiadau i'r ffynonellau data a allai arwain at ddangosyddion MALIC o bosib. Ym mhob maes namyn un rydym naill ai wedi ein hysgogi i newid dangosyddion trwy ddatblygiadau strategol (fel Credyd Cynhwysol, a mesurau cyrhaeddiad ysgol Cyfnod Allweddol 4) neu'n bwriadu defnyddio setiau data newydd sy'n cynnig mesur o gysyniadau perthnasol (fel pwysau plant, a mynediad at fannau gwyrdd).

Y dangosyddion unigol sy'n sail i MALIC yw'r blociau adeiladu ar gyfer y mynegai cyfan. Mae'r gwaith sylweddol ar ddatblygu dangosyddion a nodir uchod wedi arwain at gynnig sawl gwelliant i MALIC ar gyfer 2019, yn fwy felly na'r diweddariadau diwethaf i'r Mynegai.

Gan fod rhai o'n cynigion yn ceisio manteisio ar ddata newydd sydd ar gael, nid oedd modd i ni ddarparu disgrifiad llawn o'r dangosyddion yn ein dogfen ymgynghori. Mae'r ddogfen hon yn darparu rhagor o fanylion am rai o'r dangosyddion sydd newydd eu cynnig.

2.2. Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Daeth cyfanswm o 41 ymateb ysgrifenedig i law, ac fe gymerodd 43 o bobl ran yn ein gweminarau a sesiynau galw heibio. Roedd y sesiynau hynny'n cynnwys cyflwyniad i'r cynigion a chyfle i ddefnyddwyr ofyn cwestiynau. Rhannwyd ein cynigion hefyd mewn amrywiol gyfarfodydd panel defnyddwyr ystadegau gan gynnwys Panel Defnyddwyr Ystadegau Trydydd Sector, y Grŵp Gwybodaeth Tai a Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Caiff ymatebion ysgrifenedig yn ogystal â sylwadau a wnaed yn ystod ein gweminarau a sesiynau galw heibio eu hystyried yn y ddogfen hon.

Daeth ymatebion i law gan amrywiol sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, sefydliadau trydydd sector a nifer o sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Ceir rhestr lawn o sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad 1. Gellir gweld ymatebion unigol ar [dudalen yr ymgynghoriad](#). Nid oedd gofyn i'r ymatebwyr ateb y cwestiynau i gyd.

2.3. Adolygiad o adborth yr ymgynghoriad

Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hadolygu a'u crynhoi gan ystyried sylwadau'r grwpiau maes, cynghori a llywio. Yn adran 2.4 ceir crynodeb o'n rhestr bresennol o ddangosyddion arfaethedig yng ngoleuni adborth i'r ymgynghoriad a datblygiadau diweddar eraill.

Yn adrannau 3 i 13, ceir trosolwg o'r adborth a ddaeth i law mewn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad yn ein dogfen ymgynghori. Mae'r wyth pennod ar feysydd penodol (4 i 11) yn dilyn fformat tebyg gan edrych ar yr isod o fewn pob maes:

- Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad
- Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019
- Materion heb eu datrys
- Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol
- Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

2.4. Dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019 (ar ôl yr ymgynghoriad)

Tabl 1. Crynodeb o'r Newidiadau rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Parth / Dangosydd	MALIC 2014	MALIC 2019	MALIC 2019: Gwaith datblygu heb ei gwblhau
Incwm			
Canran y boblogaeth sydd yn derbyn budd-daliadau cysylltiedig ag incwm	Ydi	Ydi	-
Data ar aelwydydd incwm isel (yn seiliedig ar ddata gweinyddol cysylltiol o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol)	Na	Na	Nid ydyn yn ystyried cynnwys hwn mwyach gan na fydd yn bosib cynnwys data hunanasesu treth erbyn 2019
Cyflogaeth			
Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau cysylltiedig â chyflogaeth	Ydi	Ydi	-
Iechyd			
Pwysau geni isel	Ydi	Ydi	-
Plant sy'n ordew (Dosbarth Derbyn)	Na	Ydi	-
Achosion o ganser	Ydi	Ydi	-
Diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl	Na	Ydi	Mynediad at ddata a diffiniadau wrthi'n cael eu datblygu
Diagnosis o gyflyrau cronig	Na	Ydi	Mynediad at ddata a diffiniadau wrthi'n cael eu datblygu
Salwch cyfyngus hirdymor	Ydi	Ydi	-
Cyfradd marwolaethau cyn pryd	Na	Ydi	-
Cyfradd marwolaethau o bob achos	Ydi	Na	-
Addysg			
Asesiadau dechreuol o blant mewn dosbarthiadau derbyn	Na	Ydi	Sicrhau ansawdd
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Sylfaen	Na	Ydi	-
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2	Ydi	Ydi	
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4	Na	Ydi	Diffiniad wrthi'n cael ei ddatblygu
Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 cynhwysol	Ydi	Na	-
Sgôr pwyntiau wedi'i chapio Cyfnod Allweddol 4	Ydi	Na	-
Cyfradd Absenoliaeth Mynych	Ydi	Ydi	-
Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch	Ydi	Ydi	Cadarnhau ffynhonnell ddata
Nifer yr oedolion 25-64 oed heb gymwysterau	Ydi	Ydi	-

(Tabl 1 parhad) Parth / Dangosydd	MALIC 2014	MALIC 2019	MALIC 2019: Gwaith datblygu heb ei gwblhau
Mynediad at wasanaethau			
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i siop fwyd	Ydi	Ydi	-
Fel yr uchod, i feddygfa	Ydi	Ydi	-
Fel yr uchod, i ganolfan hamdden	Ydi	Ydi	-
Fel yr uchod, i ysgol uwchradd	Ydi	Ydi	-
Fel yr uchod, i fferyllfa	Ydi	Ydi	-
Fel yr uchod, i swyddfa'r post	Ydi	Ydi	-
Fel yr uchod, i ysgol gynradd	Ydi	Ydi	-
Fel yr uchod, i lyfrgell gyhoeddus	Ydi	Ydi	-
Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth preifat i orsaf betrol	Ydi	Ydi	-
Mynediad at wasanaethau digidol	Na	Ydi	Sicrhau ansawdd y data terfynol
Tai			
Dangosydd tai o ansawdd gwael yn ôl mesur peryglon a'r rhai sydd mewn cyflwr gwael	Na	Ydi	Sicrhau ansawdd y data (wedi'u modelu) sydd wedi'u comisiynu
Gorlenwi (mesur ystafelloedd gwely ar sail Cyfrifiad 2011)	Ydi	Ydi	-
Diffyg gwres canolog (Cyfrifiad 2011)	Ydi	Na	-
Yr Amgylchedd Ffisegol			
Sgôr Aelwydydd sydd mewn Perygl o Lifogydd	Ydi	Ydi	-
Sgôr Ansawdd Aer	Na	Ydi	Cadarnhau dulliau
Ansawdd Aer - Allyriadau	Ydi	Na	-
Ansawdd Aer - Crynodiadau	Ydi	Na	-
Sgôr diffyg agosrwydd at fan gwyrdd naturiol hygyrch	Na	Ydi	Cadarnhau dulliau a sicrwydd ansawdd
Agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol	Ydi	Na	-
Diogelwch Cymunedol			
Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu	Ydi	Ydi	-
Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu	Ydi	Ydi	-
Lladrad a gofnodir gan yr heddlu	Ydi	Ydi	-
Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu	Ydi	Ydi	-
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	Ydi	Ydi	-
Tanau	Ydi	Ydi	-

3. Trosolwg

- Cwestiwn 1: A oes gennych unrhyw farn ar flaenoriaeth i archwilio'r ffynonellau data newydd isod ar gyfer MALIC 2019?
 - Incwm isel aelwydydd
 - Pwysau afiach ymhlith plant
 - Cyflyrau iechyd meddwl a chronig wedi'u cofrestru â meddyg teulu
 - Addysg a sgiliau blynyddoedd cynnar
 - Symud ymlaen i Addysg Uwch
 - Mynediad at fannau gwyrdd naturiol
 - Mynediad at fand eang cyflym iawn

Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn croesawu'r bwriad i archwilio'r ffynonellau data newydd hyn, ac yn teimlo y gallai pob un ohonynt ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ar amddifadedd. Dywedodd un ymatebydd bod pob ffynhonnell yn bwysig ac y dylid edrych ar y cyfan, ac fe ddwedodd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd bod angen rhoi blaenoriaeth i fwy nag un maes.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai'r brif flaenoriaeth oedd edrych ar ddata ar aelwydydd incwm isel. Dywedodd deuddeg o ymatebwyr bod angen rhoi blaenoriaeth i incwm isel aelwydydd, gyda rhai yn sôn am yr effaith y gall incwm isel ei chael ar agweddau eraill o fywyd. Gwnaed sylw gan nifer o'r ymatebwyr hefyd am yr angen i ddeall effaith Credyd Cynhwysol.

Rydym yn cydnabod bod cefnogaeth i gynnwys y dangosydd hwn, ac rydym nawr wedi edrych yn fanylach ar ei ddichonolrwydd. Yn anffodus, yn sgil problemau cwrmpas gyda'r ffynhonnell ddata hon (ffynhonnell ddata cysylltiol o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol) sy'n annhebygol iawn o gael eu datrys mewn pryd, ni fydd yn bosibl cynnwys yr ail ddangosydd arfaethedig yn MALIC 2019 - gweler adran 4.4 i gael rhagor o fanylion.

Edrych ar ddata ynghylch cyflyrau iechyd meddwl a chronig wedi'u cofrestru â meddyg teulu oedd y flaenoriaeth fwyaf poblogaidd nesaf, gyda deg o ymatebwyr yn annog hyn.

Byddwn yn parhau i edrych ar ddata gofal sylfaenol dros y misoedd nesaf, gyda'r nod o gael dangosyddion ar ddiagnosis o gyflyrau iechyd meddwl a chronig. Mae hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y grŵp llywodraethu data perthnasol, a'n hasesiad ni o ansawdd y data pan ddaw i law. Ceir rhagor o fanylion yn adran 6.3.

Ceir amlinelliad isod o nifer yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi rhoi blaenoriaeth i bob un o'r ffynonellau data newydd eraill:

- Chwe ymatebydd ar gyfer mynediad at fand eang cyflym iawn
- Pum ymatebydd ar gyfer plant â phwysau afiach
- Pum ymatebydd ar gyfer mynediad at fannau gwyrdd
- Dau ymatebydd ar gyfer addysg a sgiliau blynyddoedd cynnar
- Un ymatebydd ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch, ac un arall yn mynegi siom nad oes modd i ni gynnwys data ar bobl ifanc nad ydynt yn mynd ymlaen i gael swydd neu hyfforddiant.

Yn y penodau canlynol sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol, rydym yn ehangu ar y datblygiadau ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, ac yn amlinellu'r dangosyddion y byddwn yn parhau i'w dilyn yn y cyfnod sy'n arwain at gyhoeddi'r mynegai.

4. Incwm

Mae'r maes incwm yn canolbwyntio ar y gyfran o bobl ag incwm islaw lefel ddiffiniedig.

4.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r prif gynigion ar gyfer dangosydd amddifadedd incwm yn unol â mynegeion blaenorol, ar sail data 2016-17, ar gyfer MALIC 2019?

Roedd pedwar ar ddeg o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi'r cynnig, gan gytuno dan yr amgylchiadau mai defnyddio data yn union cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn yw'r dull gweithredu gorau.

Mynegwyd pryder gan un o'r ymatebwyr ynghylch cynnwys Budd-dal Tai yn y Credyd Cynhwysol, budd-dal nad oedd gynt yn dod o dan MALIC. I gadarnhau, gan mai'r unig hawlwr Credyd Cynhwysol sy'n debyg o gael eu dal yn MALIC 2019 yw'r achosion cynnar a syml, fel Ceiswyr Gwaith newydd, mae'r mater yn annhebygol iawn o effeithio ar ddilysrwydd cymariaethau ar draws y meysydd.

Er nad oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, roedd rhai yn awgrymu dal agweddau eraill o amddifadedd incwm, sy'n cael sylw dan Gwestiwn 5 isod (sylwadau cyffredinol).

- Cwestiwn 3: A fyddai'n ddefnyddiol i ddangosydd amddifadedd incwm tebyg fod ar gael ar wahân i ganiatáu am gymharu ag ardaloedd bach yn Lloegr (data 2015-16)?

Roedd ugain o ymatebwyr yn mynegi rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer gwneud data o'r fath ar gael. Byddai hyn yn ddefnyddiol er mwyn medru cymharu gyda Lloegr ar bynciau heb eu datganoli, meincnodi ehangach ac ar gyfer sefydliadau â chwmpas daearyddol ehangach. Fodd bynnag, mynegodd y defnyddwyr eu bod yn ffafrio cynnwys y data diweddaraf posibl ym MALIC 2019, yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i gymharu â Lloegr.

- Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn ag ychwanegu ail ddangosydd ar gyfer aelwydydd ag incwm isel (ar sail canlyniadau ymchwil ONS), yn amodol ar ystyriaethau ansawdd?

O'r un ar bymtheg o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd pob un yn croesawu'r posibilrwydd o gynnwys yr ail ddangosydd hwn. Cymeradwyodd yr ymatebwyr fesur a fyddai'n dal data ar enillwyr cyflog isel nad ydynt yn hawlio budd-daliadau, incwm hunangyflogedig, ac incwm aelwydydd yn hytrach nag unigolion. Fodd bynnag, roedd tua'u hanner yn dweud yn glir y dylai unrhyw ddangosydd posib ond gael ei gynnwys os yw'r

ystyriaethau ansawdd a nodir yn cael sylw digonol. Awgrymodd un y dylid gosod pwysoliad is ar unrhyw ddangosydd newydd nes bod datblygiadau data yn symud ymlaen.

Yn anffodus, yn sgil problemau cwmpas gyda'r ffynhonnell ddata hon sy'n annhebygol iawn o gael eu datrys mewn pryd, ni fydd yn bosibl cynnwys yr ail ddangosydd arfaethedig yn MALIC 2019 - gweler adran 4.4 i gael rhagor o fanylion.

- Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Incwm?

Dan y cwestiwn hwn (a chwestiynau eraill), y materion cyffredinol mwyaf perthnasol a godwyd oedd:

- Perthnasedd y maes hwn yn benodol, lle mae'r dangosyddion o ddiddordeb i nifer o ddefnyddwyr ar wahân i'r mynegai amddifadedd cyfunol cyffredinol.
- Defnyddioldeb y dangosyddion blynyddol i rai defnyddwyr.
- Dywedodd ambell un o'r defnyddwyr y dylem yn ddelfrydol addasu amcangyfrifon incwm ar gyfer costau byw, er enghraifft tynnu costau tai. Nid yw hyn yn bosibl o ran methodoleg ar lefel ardal mor fach ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i adolygu'r cwmpas ar gyfer hyn mewn mynegeion yn y dyfodol.
- Mynegodd rhai defnyddwyr bryderon na fyddai dangosyddion MALIC 2019 yn dal effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol tu hwnt i fis Ebrill 2017. Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlygu'r rheswm pam na allwn wneud hyn ar hyn o bryd, ac rydym yn nodi cefnogaeth defnyddwyr i ni barhau i gydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn caniatáu cymariaethau dilys o'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau hanesyddol a Chredyd Cynhwysol (ar ôl ei gyflwyno) yn y dyfodol.

4.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Rydym yn cynnig y bydd maes incwm yn cynnwys dangosydd cyfansawdd a gyfrifir trwy ddefnyddio'r pedair elfen isod. Rydym yn cynnig defnyddio data o rywbyrd cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru (blwyddyn ariannol 2016-17)¹.

¹ Er na ddechreuodd cyflwyniad gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru tan fis Ebrill 2017, bu cyflwyniad Credyd Cynhwysol i hawlwr sengl, newydd y Lwfans Ceisio Gwaith (yn bennaf) yn flaenorol. Ar gyfer ein diweddariadau i'r dangosyddion yn 2016 a 2017, gwnaethom weithio gyda'r DWP i ychwanegu hawlwr perthnasol at ein dangosyddion cyhoeddedig, ac roedd hyn yn bosibl oherwydd eu bod yn gymharol syml i'w mapio i ddangosyddion yr hen system/system flaenorol. Gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth am hyn yn ein [canllaw i ddadansoddi data dangosydd](#).

- a) Hawlwyr budd-daliadau cysylltiedig ag incwm; mae hyn yn cynnwys hawlwr Cymhorthdal Incwm, hawlwr Lwfans Ceisio Gwaith, hawlwr Credyd Pensiwn, a hawlwr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail Incwm; a'u plant dibynnol. Ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- b) Nifer y plant a'r oedolion mewn teuluoedd sy'n cael Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant ag incwm sy'n llai na 60 y cant o'r incwm canolrifol ar gyfer Cymru (Cyn Costau Tai). Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM (CTHEM).
- c) Ceiswyr Lloches â Chymorth, sef y rhai a gefnogir o dan Adran 95 o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches, a'u plant dibynnol. Ffynhonnell: y Swyddfa Gartref.
- d) Pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol a'u plant dibynnol. Rydym yn eithrio'r rheini sy'n "gweithio heb unrhyw ofynion" yn ôl dangosydd "amodoldeb" y setiau data. Ffynhonnell: DWP.

Yn y setiau data DWP uchod ceir cofnodion o unigolion unigryw (h.y. caiff y rheini sy'n hawlio amryw o fudd-daliadau eu cyfrif unwaith). Cyfrifir a mynegir y gwahanol elfennau ar ffurf canran o'r boblogaeth gyfan ar gyfer yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fel pwynt cyfeirio mwyaf priodol.

4.3. Materion heb eu datrys

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol er mwyn cyhoeddi cyfres gyson o ddata amddifadedd incwm ar gyfer AGEHI ar draws Cymru a Lloegr yn ystod 2019. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu cynnwys y data yma yn MALIC 2019, gan y byddai'n hŷn (2015-16) na'r dewis arall a nodir yn y bennod hon (2016-17).

4.4. Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Gweler y sylwadau cynharach am weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddata i ganiatáu cymharu dilys rhwng hawlwr buddiannau blaenorol a Chredyd Cynhwysol (ar ôl ei gyflwyno'n llawn) yn y dyfodol.

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori ac o dan Gwestiwn 4, rydym wedi bod yn archwilio [ystadegau arbrofol newydd \(canlyniadau ymchwil gynt\) ar incwm](#) o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol cysylltiedig. Roeddem yn gobeithio y byddai hyn yn darparu dangosydd ar aelwydydd ag incwm isel i'w gynnwys ochr yn ochr â'r dangosydd presennol, yn ddarostyngedig i ystyriaethau ansawdd a chwmpas. Un o'n meini prawf ar gyfer cynnwys hyn yw bod y data o'r broses hunanasesiad treth, er enghraifft incwm hunangyflogaeth, yn cael eu dal yn y gyfres ddata gysylltiedig. Yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf gan ystadegwyr ONS, mae hyn yn annhebygol iawn o gael ei gyflawni mewn pryd i ni gynnwys dangosydd yn MALIC 2019. Byddwn yn ystyried y potensial ar gyfer cynnwys hyn mewn mynegeion yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith

datblygu tuag at hyn, byddwn yn adolygu ansawdd a chwmpas y ffynhonnell ddata cyn hydref 2020, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth cyd-destunol o bosib wrth ochr ein cyfres gyntaf o ddangosyddion MALIC 2019 wedi'u diweddarau.

Hefyd, bydd angen parhau i fonitro [amcangyfrifon incwm ar sail model ardaloedd bach](#) eraill a gynhyrchwyd gan yr ONS, os yw'r model ar lefel AGEHI (ar hyn o bryd AGEHG).

4.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Yn sgil problemau ynghylch cwmpas y ffynhonnell ddata, ni fydd yn bosibl cynnwys yr ail ddangosydd arfaethedig yn MALIC 2019 - gweler yr adran uchod i gael rhagor o fanylion.

5. Cyflogaeth

Diben y maes cyflogaeth yw cofnodi'r diffyg cyflogaeth. Mae'n cynnwys y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael ei heithrio'n anwirfoddol o waith, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd gwaeledd neu sy'n ddi-waith ond yn chwilio'n ddyfal am swydd.

5.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r prif gynnig ar gyfer dangosydd amddifadedd cyflogaeth yn unol â mynegeion blaenorol, ar sail data 2016-17, ar gyfer MALIC 2019?

Roedd yr un ar ddeg a ymatebodd i'r cwestiwn hwn i gyd yn cefnogi'r cynnig, gan ystyried y cyfyngiadau ar y data sydd ar gael. Roedd rhai yn pwysleisio pwysigrwydd amddifadedd cyflogaeth yn y Mynegai, a manteision parhau i fedru cymharu â'r Mynegai blaenorol.

- Cwestiwn 7: A fyddai'n ddefnyddiol i ddangosydd amddifadedd cyflogaeth tebyg fod ar gael ar wahân i ganiatáu am gymharu ag ardaloedd bach yn Lloegr (data 2015-16)?

Roedd pedwar ar ddeg o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi'r datblygiad hwn, er enghraifft er mwyn gwella'r cwrpas ar gyfer meincnodi ar lefel awdurdod lleol, ac nid oedd unrhyw un yn bendant yn erbyn y datblygiad arfaethedig hwn.

- Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Cyflogaeth?

Cafwyd nifer o awgrymiadau gan ymatebwyr ynghylch meysydd eraill o ddiddordeb. Roedd y mwyaf cyffredin o'r rhain yn ymwneud â sicrwydd/ansawdd swyddi (contractau dim oriau a dros dro), cyflog isel, gwaith teg neu dangyflogaeth. Er bod cytundeb cyffredinol bod dangosyddion o'r fath yn gynyddol berthnasol i'r maes hwn, roedd ychydig o'r ymatebwyr yn cydnabod bod prinder data ar gael ar hyn o bryd ar lefel ardal fach.

Dywedodd un ymatebydd y byddai rhannu yn ôl oedran yn ddefnyddiol. Mae'r rhaniadau oedran ar gyfer y dangosydd hwn wedi'u cyhoeddi ar [StatsCymru](https://stats.cymru.gov.uk/), ac fe fyddwn yn parhau i gynhyrchu rhaniadau oedran ar gyfer fersiynau o'r maes amddifadedd cyflogaeth yn y dyfodol.

5.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Bydd y maes cyflogaeth yn cynnwys cyfrifiad o unigolion (h.y. caiff y rheini sy'n hawlio amryw o fudd-daliadau eu cyfrif unwaith) sydd â hawl i:

- Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)
- Budd-dal Analluogrwydd (a Lwfans Anabledd Difrifol)
- Credyd Cynhwysol (UC) ac [nid mewn cyflogaeth²](#)

Mynegir y dangosydd ar ffurf canran o'r boblogaeth oedran gwaith ar gyfer AGEHI, a'r ffynhonnell yw DWP.

5.3. Materion heb eu datrys

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gyhoeddi cyfres gyson o ddata amddifadedd cyflogaeth ar gyfer AGEHI ar draws Cymru a Lloegr yn ystod 2019. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu cynnwys y data yma yn MALIC 2019, gan y byddai'n hŷn (2015-16) na'r dewis arall a nodir yn y bennod hon (2016-17).

5.4. Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar opsiynau ar gyfer dangosydd addas gan ddefnyddio data ynglŷn â hawlwr Credyd Cynhwysol (ar ôl ei gyflwyno'n llawn) mewn mynegeion yn y dyfodol.

Byddwn yn monitro gwaith yr ONS ar [allbynnau ymchwil marchnad lafur](#) newydd cyn fersiynau o'r Mynegai yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau o ran mesur ansawdd swyddi neu ffactorau cysylltiedig (gweler yr ymatebion i gwestiwn 8) ar lefel ardal fach.

5.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Rydym yn nodi'r gefnogaeth ar gyfer cynigion y maes hwn; felly ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad ac fe fydd y cynigion sy'n cael eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad yn cael eu rhoi ar waith.

²Bydd unigolyn sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar ddyddiad y cyfrif yn cael ei gofnodi fel person cyflogedig os oes ganddo gofnod o gyflog yn ystod ei gyfnod asesu cyflawn agosaf at ddyddiad y cyfrif (ail ddydd lau'r mis). Efallai na fydd yn gyflogedig yn union ar ddiwrnod y cyfrif.

6. Iechyd

Diben y maes hwn yw mesur diffyg iechyd da. Nid yw'r maes hwn yn cynnwys unrhyw is-feysydd. Mae rhai o'r dangosyddion yn y maes hwn wedi'u safoni ar sail oedran a rhyw er mwyn darparu ar gyfer gwahaniaethau'r boblogaeth mewn ardaloedd bach.

6.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 9: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer plant dosbarth derbyn â phwysau afiach?

O'r tri ar hugain o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd pedwar ar bymtheg yn croesawu'r dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer plant dosbarth derbyn â phwysau afiach. Dywedodd sawl un o'r rhai a ymatebodd bod hwn yn fesur pwysig a pherthnasol gan y gallai pwysau afiach ar oedran cynnar gael effaith ar iechyd yn ddiweddarach yn eu hoes. Dywedodd dau o'r ymatebwyr bod tystiolaeth yn dangos bod plant gordew yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig.

Roedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai mesur o ordewdra wrth ei hun yn fwy dymunol na mesur o blant sydd dros bwysau neu'n ordew, gan fod cysylltiad cryfach rhwng hynny a phwysau afiach erbyn Blwyddyn 4. Dywedodd un o'r ymatebwyr bod mesur penodol ar gyfer gordewdra yn fwy defnyddiol i dargedu ardaloedd lle mae hyn yn broblem. Roedd pedwar o'r ymatebwyr yn teimlo bod mesur sy'n cynnwys plant dan bwysau yn ddymunol. Er ein bod yn cydnabod y gall bod dan bwysau fod yn gysylltiedig â diffyg maeth neu esgeulustod, mae nifer y plant dan bwysau yn rhy fach i fod yn gadarn ar lefel ardal fach, hyd yn oed pan fo data sawl blwyddyn yn cael eu cyfuno.

Er nad oedd unrhyw un yn gwrthwynebu'r cynnig, roedd rhai yn codi cwestiynau am y mesur i'w gynnwys. Roedd dau o'r ymatebwyr yn gofyn pam fod ein cynnig yn benodol am blant dosbarth derbyn hyn hytrach na phlant hŷn neu iau. Mae'r esboniad am hyn yn ymwneud yn bennaf â'r data sydd ar gael. Mae'r rhaglen Mesur Plant yn casglu data am blant yr oedran yma (4 a 5 oed) yn benodol. Hefyd, mae'r data wedi cael eu casglu mewn ffordd safonol ers blwyddyn academaidd 2011/12, felly mae'n darparu amcangyfrifon dibynadwy a chadarn ar lefel ardal fach. O ganlyniad, mae'r data'n addas i'w cynnwys yn MALIC.

Roedd un ymatebydd yn holi sut y byddwn yn cyfateb data sy'n cael eu casglu mewn ysgolion ag AGEHI. Roedd gan dri ymatebydd ddiddordeb mewn gwybod a fyddai ffactorau fel taldra plant yn cael eu hystyried.

Mae'r dulliau yr ydym yn eu hargymell yn cael eu hegluro isod:

- Bydd cyfeiriad cartref y disgybl, o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion ([PLASC](#)), yn cael ei ddefnyddio i nodi'r AGEHI lle mae plant yn byw yn hytrach nag AGEHI yr ysgol.
- Bydd cyfraddau'r achosion yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio oedran a chanraddau Mynegai Màs y Corff (BMI) penodol i'r rhyw (gan gynnwys gwybodaeth am daldra) wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio cyfeiriad twf Prydain 1990 (UK90) (o ddull a argymhellwyd gan Cole et al (1995)). Mae'r plant sydd ar ganradd 95 neu uwch yn cael eu hystyried yn ordew.

Cafwyd sylwadau gan sawl ymatebydd ar fesurau eraill yn ymwneud â phlant yn eu hymateb i'r cwestiwn hwn, fel gweithgarwch corfforol (gweler hefyd Cwestiwn 14). Roedd dau ymatebydd yn cefnogi ein cynnig i gynnwys pwysau geni isel gan hefyd annog edrych ymhellach ar y dangosydd pwysau geni iach.

- Cwestiwn 10: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer cyflyrau cronig?

Roedd dau ar bymtheg o'r pedwar ar bymtheg o ymatebwyr yn croesawu ein dangosydd newydd arfaethedig ar gyflyrau cronig. Roedd y rhan fwyaf yn dweud y byddai cynnwys amrywiaeth ehangach o gyflyrau iechyd (ar ben achosion o ganser) yn gwella'r maes iechyd. Roedd un ymatebydd am dynnu sylw at y ffaith bod nifer yr achosion o afiechydon cronig yn ddangosydd pwysig ar gyfer amddifadedd ynddo'i hun, ond bod cysylltiad hefyd â chostau byw uwch, cyfleoedd mwy cyfyngedig a mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus.

Roedd tri o'r ymatebwyr yn dweud y byddai cael data lefel AGEHI ar gyflyrau cronig yn ddefnyddiol, gydag un yn annog cynnwys data o'r fath yn y mynegai hwn hyd yn oed os nad oes modd cyhoeddi ar lefel AGEHI. Er gwaetha'r ymateb cadarnhaol hwn, roedd sawl ymatebydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd archwilio a yw meddygon teulu yn cofnodi cyflyrau cronig mewn ffordd gywir a chyson ar draws yr ardaloedd, er mwyn sicrhau bod y data yn gadarn.

Soniodd rhai o'r ymatebwyr am gyflyrau iechyd yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys yn y mesur hwn. Ymysg yr awgrymiadau roedd cyflyrau'r galon a chylchredol, anhwylderau anadlol a diabetes. Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi blaenoriaeth i gyflyrau cronig y gwyddom eu bod yn gysylltiedig ag amddifadedd. Bydd y sylwadau hynny, yn ogystal â chynghor clinigwyr yn cael eu hystyried wrth edrych ar yr amodau y dylid eu cynnwys fel rhan o'r dangosydd hwn.

- Cwestiwn 11: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer iechyd meddwl?

O'r 22 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pob un yn cefnogi dangosydd newydd ar gyfer iechyd meddwl, yn ddarostyngedig i ansawdd y data. Roedd dau ymatebydd yn cymeradwyo'r mesur hwn gan gyfeirio at wledydd eraill yn y DU sy'n cynnwys iechyd meddwl fel rhan o'u mynegeion amddifadedd.

Roedd gan sawl ymatebydd ddiddordeb mewn dangosydd ar iechyd meddwl wedi'i ddatgyfuno yn ôl oedran, gan ddweud bod angen mesur hyn ymysg plant a phobl ifanc. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu manylion yn ôl oedran ar gyfer y dangosydd hwn os bydd y data yn cael eu hystyried yn ddigon cadarn.

Er gwaetha'r gefnogaeth eang ar gyfer cynnwys dangosydd ar iechyd meddwl, roedd sawl ymatebydd yn gweld heriau o ran data presgripsiynau a data a gofnodir gan feddygon teulu. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu y gallai data'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau o gofrestrau meddygon teulu ar gyflyrau iechyd meddwl fod yn broblem os yw'r tueddiad i roi diagnosis yn amrywio o un ardal i'r llall. Roedd eraill yn tynnu sylw at yr angen i gynnwys presgripsiynu cymdeithasol yn ogystal â phresgripsiynu meddyginiaethau. Mantais o ddefnyddio cofrestrau meddygon teulu fyddai bod y rhai â diagnosis o gyflwr iechyd meddwl penodol yn cael eu dal beth bynnag yw'r ymyrraeth, yn wahanol i ddata presgripsiynau. Gan gadw hyn mewn cof, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n dewis ni o ddefnyddio data'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau yn hytrach na data presgripsiynau.

- Cwestiwn 12: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i ddiwygio'r dangosydd marwoldeb i fod yn un ar gyfer marwoldeb cyn pryd?

O'r tri ar ddeg a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd un ar ddeg yn cefnogi ein dangosydd marwoldeb diwygiedig arfaethedig ar gyfer marwoldeb cyn pryd. Roedd sawl un o'r ymatebwyr yn cytuno bod marwoldeb cyn pryd yn ddangosydd mwy priodol na marwoldeb cyffredinol ar gyfer gweld amddifadedd iechyd ac anghydraddoldebau iechyd. Roedd un ymatebydd hefyd yn cytuno bod mesur ar farwoldeb cyn pryd yn haws ei ddeall yn gysyniadol na marwoldeb y gellid ei osgoi.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'n fuddiol cynnwys cyfradd bresennol y marwolaethau o bob achos yn ogystal â'r dangosydd diwygiedig. Er nad ydym yn cynnig cadw'r dangosydd presennol fel rhan o MALIC, sylwch bod [data marwolaeth](#) ardal fach a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dal i fod ar gael, ar Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol.

- Cwestiwn 13: Pa drefn flaenoriaeth fydddech chi'n ei rhoi ar ddatblygu mesur o blant dosbarth derbyn â phwysau afiach, cyflyrau cronig neu iechyd meddwl ar gyfer MALIC 2019?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo mai datblygu mesur iechyd meddwl oedd y flaenoriaeth uchaf (pedwar ar ddeg o ymatebwyr), yn cael ei ddilyn gan ddatblygu mesur ar anhwylderau cronig (deg o ymatebwyr). Roedd pum ymatebydd yn dweud mai datblygu mesur o bwysau afiach ymysg plant ddylai fod yn brif flaenoriaeth. Er gwaetha'r ffaith bod mwy yn ffafrio rhoi blaenoriaeth i iechyd meddwl a chyflyrau cronig, roedd rhai o'r ymatebwyr yn cydnabod y gallai problemau godi ynghylch ansawdd y data a mynediad atynt o rai ffynonellau. Roedd dau o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod hygyrchedd a pharodrwydd y rhaglen mesur plant ar hyn o bryd yn awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i gynnwys hyn.

- Cwestiwn 14: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes iechyd?

Roedd sawl ymatebydd yn awgrymu dangosyddion i edrych arnynt i'w cynnwys yn y maes iechyd yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Gofalwyr di-dâl
- Camddefnyddio sylweddau
- Disgwyliad oes iach a disgwyliad oes
- Gweithgarwch corfforol
- Gordewdra ymysg oedolion
- Hunanladdiad
- Ymddygiadau peryglus ee Beichiogrwydd ymysg pobl yn eu harddegau
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Roedd nifer o'r awgrymiadau hyn yn methu bodloni ein meini prawf ar gyfer dangosyddion gan nad oedd data ar gael ar lefel ardal fach, neu bod y ffigurau yn rhy fach i ddarparu dangosydd cadarn ar y lefel hon. Mae eraill yn cael eu trafod isod.

Gofalwyr di-dâl

Roedd tri o'r ymatebwyr yn teimlo'n siomedig ein bod wedi penderfynu peidio â chynnwys mesur ar ofalwyr di-dâl yn y maes iechyd. Cyfeiriwyd at yr effaith y gall gofal di-dâl ei chael ar iechyd meddyliol a chorfforol gofalwyr, eu gallu i weithio a'r effaith ar addysg gofalwyr ifanc. Fel nodir yn ein dogfen ymgynghori, byddai effaith o'r fath yn cael ei dal yn fwy uniongyrchol drwy ddangosyddion arfaethedig eraill ar gyfer MALIC 2019, ym meysydd iechyd, cyflogaeth, incwm ac addysg.

Ar hyn o bryd, byddai'r data ardal fach ar nifer y gofalwyr di-dâl yn dibynnu ar ddata hunanadrodd o gyfrifiad 2011. Nid yw'n ddymunol cyflwyno dangosydd newydd gyda'r pwynt cyfeirio hwnnw ar gyfer Mynegai 2019.

Rydym yn cydnabod sylwadau'r ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd asesu anghenion gofalwyr, a'r ddeddfwriaeth ddiweddar ar y testun hwn. Gall data sydd ar gael am ofalwyr gael ei ddadansoddi wrth ochr gwybodaeth gyd-destunol o'r MALIC, heb iddo gael ei gynnwys o reidrwydd fel dangosydd. Yn ogystal â data'r cyfrifiad, yn 2016-17 fe gafodd cwestiynau ynghylch gofal di-dâl eu cynnwys yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) am y tro cyntaf.

Am y rhesymau a nodir yn ein dogfen ymgynghori ac uchod, ni fyddwn yn cynnwys mesur gofalwyr di-dâl fel dangosydd MALIC ar gyfer 2019.

Camddefnyddio sylweddau

Bu grŵp maes Iechyd MALIC yn trafod y posibilrwydd o ddefnyddio data ar arosiadau yn yr ysbyty ar gyfer camddefnyddio alcohol a chyffuriau yn y Mynegai. Fodd bynnag, mae'r niferoedd ar lefel ardal fach yn isel. Byddai angen cryn dipyn o waith datblygu er mwyn creu dangosydd cadarnach ar gamddefnyddio sylweddau, gan edrych ar ffynonellau data ehangach.

Byddai rhai effeithiau camddefnyddio sylweddau yn cael eu dal yn fwy uniongyrchol drwy ddangosyddion arfaethedig eraill ar gyfer MALIC 2019, er enghraifft y rhai ar farwoldeb cyn pryd, a chyflyrau iechyd meddwl a chronig.

6.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Ceir amlinelliad isod o'n cynigion ar gyfer dangosyddion i'w cynnwys yn y maes iechyd.

Dangosyddion sy'n ymwneud â phlant

- Pwysau Geni Isel: Canran y genedigaethau unigol byw o lai na 2.5kg (5.5lbs)

Nid yw'r dangosydd hwn wedi newid ers y mesur yn MALIC 2011 a MALIC 2014. Er ein bod yn cydnabod bod diddordeb mewn mesur pwysau geni iach, gan gofio'r cynigion eraill dwys ar adnoddau yn y maes hwn ni fydd y testun yn cael ei ddilyn am nawr ond bydd yn cael ei ystyried eto ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

- Plant gordew: Cyfran y plant dosbarth derbyn sy'n ordew yn ôl y rhaglen mesur plant.

Mae dadansoddiad o'r data hyn yn awgrymu bod mesur gordewdra plant yn fwy perthnasol i amddifadedd iechyd nag un sydd hefyd yn cynnwys plant dros bwysau. Ni fydd plant dan bwysau yn cael eu defnyddio fel dangosydd MALIC yn sgil y nifer fach o blant sy'n syrthio i'r categori hwn.

Dangosyddion sy'n mesur cyflyrau penodol â diagnosis

- Achosion o Ganser: Nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser (pob malaenedd ac eithrio cancer y croen anfelanomaidd) ym mhob 100,000 o bobl yng Nghymru.

Bydd y mesur hwn yn cael ei safoni yn anuniongyrchol i broffil oedran a rhyw y boblogaeth. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Cancer Cymru (WCISU). Cafodd nifer yr achosion o ganser ei gynnwys ym MALIC 2011 a 2014. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosydd hwn ar gael yn [Adroddiad Technegol MALIC 2014](#).

- Cyflyrau iechyd meddwl â diagnosis, fel y gwelir ar gofrestrau meddygon teulu - yn ddarostyngedig i ansawdd y data a mynediad ato, union gyflyrau i'w cynnwys i'w gadarnhau.
- Cyflyrau cronig â diagnosis, fel y gwelir ar gofrestrau meddygon teulu - yn ddarostyngedig i ansawdd y data a mynediad ato, union gyflyrau i'w cynnwys i'w gadarnhau.

Dangosyddion sy'n nodi statws iechyd poblogaethau yn ehangach

- Salwch Cyfyngus Hirdymor: Nifer y bobl o bob 100,000 sydd â salwch cyfyngus hirdymor.

Cafodd hyn ei gynnwys ym MALIC 2014 a'r ffynhonnell yw Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Office Gwladol (ONS). Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosydd hwn ar gael yn [Adroddiad Technegol MALIC 2014](#).

- Mesur Marwolaethau: Nifer y marwolaethau cyn pryd o bob 100,000 o bobl.

Bydd y dangosydd hwn yn mesur cyfradd marwolaethau o bob achos ar gyfer y rhai dan 75 oed. Bydd yn cael ei safoni yn ôl proffil rhyw ac oedran y boblogaeth. Ffynhonnell y data yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

6.3. Materion heb eu datrys

Rydym mewn trafodaethau â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gael data o gofrestrau meddygon teulu (data'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau) ac i weld a oes modd defnyddio hyn i ffurfio mesur ar gyflyrau iechyd meddwl a/neu gronig. Dangoswyd cryn dipyn o gefnogaeth i'r gwaith hwn yn adborth yr ymgynghoriad, gan gydnabod y rhwystrau posib, ac fe fyddwn yn parhau i fynd ar ôl y data hyn cyn belled â phosib ar gyfer MALIC 2019.

Rydym yn y broses o wneud cais am fynediad at ddata o gronfa ddata SAIL (fel y gwelir yn y ddogfen ymgynghori) i roi sicrwydd ansawdd am y gwaith uchod ac edrych ar

ddangosyddion eraill cysylltiedig ag iechyd, ar gyfer dangosyddion yn y dyfodol os nad 2019.

6.4. Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Fel y gwelir yn ein dogfen ymgynghori, bydd iechyd a llesiant plant, a chyfnod y canser adeg diagnosis yn cael eu hystyried ar gyfer mynegeion yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn ystyried pwysau geni iach (sy'n briodol ar gyfer oedran y ffetws, ac felly'n cynnwys y rhai hynny sy'n fawr o ystyried oedran y ffetws yn ogystal â'r rhai sy'n fach) fel mesur arall ar gyfer pwysau geni isel.

6.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Fel y gwelir yn adran 6.1 (Cwestiwn 9) ac adran 6.2, ers cynigion gwreiddiol yr ymgynghoriad rydym wedi penderfynu cyfyngu ar gwmpas y dangosydd ar blant dosbarth derbyn â phwysau afiach i'r rhai gordew.

O fewn y maes iechyd, defnyddir dadansoddiad o ffactorau i benderfynu ar bwysoliad y dangosyddion cyfansoddol, ac rydym yn cynnig parhau â'r dull hwn, yn ddarostyngedig i adolygu'r pwysoliad o ganlyniad gyda grwpiau cynghori MALIC.

7. Addysg

Diben y maes hwn yw nodi faint o amddifadedd sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a sgiliau. Y nod yw adlewyrchu'r anfantais addysgol o fewn ardal yn nhermau diffyg cymwysterau a sgiliau. Mae'r dangosyddion arfaethedig yn nodi lefelau cyrhaeddiad isel ymhlith plant a phobl ifanc a diffyg cymwysterau ymhlith oedolion.

7.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 15: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i gynnwys dangosyddion sy'n deillio Asesiadau o Ddisgyblion pan fyddant yn Dechrau yn y Dosbarth Derbyn a data deilliannau'r Cyfnod Sylfaen?

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn cytuno'n gyffredinol â'n cynigion i gynnwys dangosyddion o'r data Asesiadau Dechreuol o Blant mewn Dosbarth Derbyn a data deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, gan nodi pwysigrwydd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer datblygiad plant.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn mynegi pryderon y byddai'r dangosyddion hyn yn cyflwyno gofynion asesu ychwanegol. Dylid pwysleisio ein bod yn cynnig defnyddio data sydd eisoes yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru ac nid ydym yn awgrymu y dylid gosod unrhyw ofynion casglu data ychwanegol ar ysgolion.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd data Asesiadau Dechreuol o Blant mewn Dosbarth Derbyn. Defnyddir y data ar hyn o bryd i adrodd ar Ddangosydd Cenedlaethol 6 (Mesur datblygiad plant ifanc) ac fe fyddwn yn dadansoddi'r data ymhellach i sicrhau ei fod yn briodol eu defnyddio ym MALIC 2019.

- Cwestiwn 16: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd arfaethedig ar gyfer cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4?

Roedd un ar ddeg ymatebydd yn cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dangosydd cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 fel mesur dros dro ar gyfer MALIC 2019. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r fethodoleg sy'n sail i'r dangosydd hwn. Ar ôl cwblhau dangosydd, caiff ei gytuno gan y grŵp maes a'r grŵp cynghori. Disgwylir y bydd fersiynau o MALIC yn y dyfodol yn mabwysiadu'r sgôr Capio 9.

- Cwestiwn 17: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n dull arfaethedig o lunio dangosydd ar gyfer Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i addysg uwch?

Cytunwyd â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am fesur a oedd hefyd yn adlewyrchu cynnydd tuag at addysg bellach, darpariaeth prentisiaeth neu hyd yn oed gyflogaeth. Holwyd a yw

diffyg mynediad at addysg uwch yn fesur cadarn o amddifadedd, gan ystyried y cyfleoedd eraill sydd ar gael i bobl ifanc.

Fel amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, rydym yn cydnabod y byddai mesur cynnydd i lwybrau addysg a chyflogaeth eraill yn fesur cryfach o amddifadedd addysgol pobl ifanc. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad, nid oes modd i ni gynnwys dangosydd o'r fath ar hyn o bryd. Fel y nodir, byddwn yn monitro gwaith datblygu parhaus yn ymwneud â chyrchfannau CA4/CA5, ac yn rhoi blaenoriaeth i'r dangosydd hwn fel maes i'w wella ar gyfer y MALIC nesaf.

- Cwestiwn 18: Pa flaenoriaeth fydddech chi'n ei rhoi i ddatblygu'r mesurau canlynol: Asesiadau o Ddisgyblion pan fyddant yn Dechrau yn y Dosbarth Derbyn neu ddangosydd cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed? Nodwch 1 neu 2 (1 yn flaenoriaeth uchel; 2 yn flaenoriaeth isel).

Roedd un ar ddeg ymatebydd yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu dangosydd asesiad o Ddisgyblion pan fyddant yn Dechrau yn y Dosbarth Derbyn o gymharu ag wyth ymatebydd a oedd yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddangosydd cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed.

Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn nodi ei bod yn anodd blaenoriaethu rhwng y ddau ddangosydd sy'n mesur materion a chyfnodau bywyd gwahanol iawn. Awgrymwyd y byddai'n fwy priodol canolbwyntio adnoddau ar y dangosydd sydd fwyaf ymarferol ei gwblhau o fewn yr amserlen ar gyfer MALIC 2019.

Ar sail yr ymateb, byddwn yn canolbwyntio adnoddau yn y lle cyntaf ar ddatblygu dangosydd asesiad o Ddisgyblion pan fyddant yn Dechrau yn y Dosbarth Derbyn.

Fodd bynnag, er mwyn adlewyrchu'r ymateb gweddol gyfartal i'r cwestiwn hwn, byddwn hefyd yn rhoi rhywfaint o adnodd i ddatblygu'r dangosydd cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch. Ym mis Medi 2018, cyhoeddwyd [datganiad ystadegol cyntaf ar gyrchfannau dysgu](#) sefydliadau addysg uwch a chweched dosbarth. Byddwn yn edrych i weld a ellid defnyddio'r data sy'n sail i'r datganiad hwn i gynhyrchu mesur o bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch.

- Cwestiwn 19: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Addysg?

Yn ogystal â'r pwyntiau a nodir uchod, gwnaed rhai sylwadau ychwanegol - yn arbennig:

- Rhagor o gefnogaeth i ddangosydd sy'n dal y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu, fel arall, dangosydd sy'n ystyried cynnydd tuag at brentisiaethau neu ddysgu gydol oes yn ogystal ag addysg uwch

- Y potensial o ddatblygu dangosydd yn mesur nifer y graddedigion sy'n mynd i swyddi lefel graddedig (o ddata'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr neu ffynonellau eraill). Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai data arolwg yn darparu amcangyfrifon digon cadarn ar lefel AGEHI. Gellid dadlau hefyd ynghylch a fyddai dangosydd o'r fath yn fwy priodol yn y maes Incwm neu'r maes Cyflogaeth.

Gofynnwyd hefyd a oedd nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (neu grwpiau eraill sydd o bosib yn agored i niwed) wedi'i ystyried fel dangosydd. Gan gofio bod cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei bennu drwy gymhwysra rhieni i gael rhai budd-daliadau incwm penodol, rydym yn disgwyl i'r agwedd arbennig hon o amddifadedd gael ei dal drwy'r maes Incwm.

7.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Rydym yn cynnig y dylai'r maes Addysg gynnwys y dangosyddion canlynol:

- Asesiadau dechreuol o blant mewn dosbarthiadau derbyn

Bydd y dangosydd hwn wedi'i seilio ar asesiadau athrawon a gynhelir yn ystod y 6 wythnos gyntaf yn yr ysgol a bydd yn mesur anfantais addysgol yn y blynyddoedd cyn ysgol. Bydd y data yn dod o'r Asesiadau Dechreuol o Blant mewn Dosbarthiadau Derbyn a gesglir gan Lywodraeth Cymru.

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Sylfaen

Bydd y dangosydd hwn wedi'i seilio ar ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer plant 7 oed sy'n cael eu haddysgu yng Ngrŵp Blwyddyn 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol (h.y. diwedd y Cyfnod Sylfaen). Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a'r Casgliad Data Cenedlaethol (NDC), gan Lywodraeth Cymru.

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2

Bydd y dangosydd hwn wedi'i seilio ar ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer disgyblion 11 oed sy'n cael eu haddysgu yng Ngrŵp Blwyddyn 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol (h.y. diwedd Cyfnod Allweddol 2). Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a'r Casgliad Data Cenedlaethol (NDC), gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014.

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4

Bydd y dangosydd hwn yn ystyried y graddau a gyflawnir gan holl ddisgyblion blwyddyn 11 mewn TGAU Saesneg neu TGAU Cymraeg, TGAU Mathemateg a TGAU Gwyddoniaeth (h.y. elfennau craidd y sgôr pwyntiau 'capio 9'); ac yn cyfrifo sgôr cyfartalog yn seiliedig ar y canlyniadau hyn. Mae gwaith pellach i gadarnhau'r diffiniad o'r dangosydd hwn yn mynd rhagddo. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw PLASC a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED), gan Lywodraeth Cymru.

- Cyfradd Absenoliaeth Mynych

Bydd y dangosydd yn mesur cyfran y disgyblion sy'n colli 15% neu ragor o sesiynau ysgol fel procsi ar gyfer 'absenoliaeth mynych'. Bydd y data wedi'i seilio ar yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol mewn ysgol a gynhelir. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw PLASC, casgliad data Presenoldeb, gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014.

- Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch

Bydd y dangosydd hwn yn mesur cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch. Mae gwaith i werthuso ffynonellau data posib ar gyfer y dangosydd hwn yn mynd rhagddo.

- Nifer yr oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

Bydd y dangosydd hwn yn mesur amddifadedd addysgol ymysg y boblogaeth o oedolion. O ganlyniad i newidiadau diweddar i'r oedran pensiwn gwladol, bydd y dangosydd hwn yn ystyried y rhai hynny sydd rhwng 25 a 64 oed. Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014.

Fodd bynnag, nodwch bod cynnwys y dangosyddion hyn ym MALIC 2019 yn amodol ar ddatrys y materion a amlinellir yn adran 7.3 isod.

7.3. Materion heb eu datrys

- Byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach o ddata yr Asesiad Dechreuol o Blant mewn Dosbarthiadau Derbyn er mwyn sicrhau ei fod yn ddangosydd cadarn a phriodol i'w ddefnyddio ym MALIC 2019.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach i gadarnhau'r diffiniad o ddangosydd cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4.
- Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i benderfynu ar ymarferoldeb creu dangosydd Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch o ffynonellau data amgen. Yna byddwn yn ystyried ai POLAR3 neu POLAR4 fyddai'r ffynhonnell fwyaf priodol.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiad ffactorau cychwynnol ar ddata Addysg sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn amcangyfrif effaith y dangosyddion newydd ar bwysoliad dangosyddion o fewn y maes. Fel nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'n bosibl y bydd y dadansoddiad ffactorau yn pennu pwysau isel i rai dangosyddion, ac fe fyddwn yn ystyried hepgor rhai dangosyddion o'r Mynegai mewn achosion o'r fath. Bydd y penderfyniad hwn yn digwydd ar ôl adolygiad o'r pwysoliad canlyniadol gan y grwpiau cynghori MALIC.

7.4 Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Fel amlinellir uchod, yn y dyfodol byddwn yn ystyried dangosydd sy'n darparu gwell mesur procsi o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

7.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Dim

8. Mynediad at Wasanaethau

Diben y maes hwn yw nodi amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd. Mae hyn yn cynnwys amddifadedd materol³ (er enghraifft methu â chael bwyd) ac agweddau cymdeithasol⁴ ar amddifadedd (er enghraifft methu â mynd i weithgareddau ar ôl ysgol).

Nid yw'r mesuriad presennol o'r maes mynediad at wasanaethau yn ffordd uniongyrchol o fesur amddifadedd y gellir ei ddefnyddio ar ei ben ei hun, yn wahanol i'r saith maes arall; yn hytrach, mae'n ffactor cyfrannol sy'n dod yn bwysig fel agwedd ar amddifadedd lluosog. Hynny yw, mae mynediad gwael at wasanaethau yn ffactor a allai ddwysáu mathau eraill o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.

8.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 20: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer mynediad at wasanaethau band eang?

Atebodd un ar hugain o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac o blith y rhain, roedd un ar bymtheg yn gyffredinol o blaid cynnwys y dangosydd mynediad at wasanaethau band eang yn y maes mynediad at wasanaethau. Roedd y rhai o blaid ei gynnwys yn rhoi rhesymau yn amrywio o'r ffaith bod Credyd Cynhwysol a rhai gwasanaethau eraill y llywodraeth (ac awdurdodau lleol) yn gyflym droi'n ddigidol yn bennaf i'r ffaith bod band eang yn cynnig manteision o safbwynt cynhwysiant ac amddifadedd, yn ogystal â dylanwadu ar lesiant drwy helpu i herio lefelau ynysiad, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gyflymder band eang neu gapasiti'r cabinetau yn eu hymatebion. Nid oes ffynhonnell ganolog o ddata ynghylch capasiti cabinetau i'n caniatáu i addasu ein dangosydd ar gyfer y ffactor hwn. O ran cyflymder, roedd un ymatebydd (awdurdod lleol) yn teimlo bod 8Mbit/s yn ddigonol ar gyfer mynediad at wasanaethau cyffredinol, tra bod un arall yn gallu rhagweld cyfnod cyn bo hir pan fydd 30Mbit/s yn prysur ddod yn annigonol ar gyfer nifer o fusnesau ac aelwydydd. Nododd cyfanswm o bum ymatebydd nad oeddent yn meddwl bod band eang cyflym iawn (hy y trothwy 30Mbit/s) yn angenrheidiol ar gyfer y dangosydd hwn. Fodd bynnag, mae'n werth egluro bod y trothwy 30Mbit/s wedi'i ddewis oherwydd 1) ei fod yn cynrychioli polisi digidol

³ Mae amddifadedd materol yn golygu diffyg adnoddau ffisegol - bwyd, cysgod a dillad – sy'n angenrheidiol i gynnal safon bywyd penodol.

⁴ Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at anallu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Llywodraeth Cymru (drwy Brosiect Cyflymu Cymru) o gyflwyno band eang cyflym iawn i'r rhan fwyaf o'r eiddo yng Nghymru sydd heb eu cynnwys mewn cynlluniau masnachol a 2) yn ôl data diweddaraf Ofcom am Gymru, mae'r ddarpariaeth 30Mbit/s yn amrywio digon i'n galluogi i gymharu'r ddarpariaeth mewn gwahanol AGEHI mewn ffordd ddibynadwy. Mewn geiriau eraill, byddai trothwy is (ee 10Mbit/s) fwy na thebyg yn golygu bod gwasanaethau band eang ar gael ar draws Cymru bron yn llwyr, ac o ganlyniad ni fyddai modd cymharu rhwng gwahanol AGEHI.

Dywedodd pedwar ymatebydd nad oeddent yn ffafrio cynnwys y dangosydd mynediad at wasanaethau band eang yn y maes hwn gan eu bod yn teimlo 1) nad oedd yn ddangosydd o amddifadedd ynddo'i hun, yn arbennig gan nad yw'n cynnwys fforddiadwyedd a 2) bod argaeledd band eang yn cynyddu ar gymaint o raddfa fel nad oes iddo ddilysrwydd yn y mynegai yn y tymor hir o gymharu ag, er enghraifft, ffeibr llawn. O'r pedwar ymatebydd hwn, byddai'n well gan ddau weld cynnwys mynediad at 5G ar gyfer data symudol fel dangosydd yn hytrach na mynediad at fand eang at 30Mbit/s – gweler hefyd Gwestiwn 22.

Roedd defnydd a fforddiadwyedd gwasanaethau band eang yn fater a amlygwyd gan naw ymatebydd. Roedd dadl yr ymatebwyr hyn yn ei hanfod yn ymwneud â'r ffaith bod y dangosydd band eang ond yn mesur mynediad at seilwaith 30Mbit/s (argaeledd) yn hytrach na fforddiadwyedd (defnydd) y gwasanaeth. Roedd pob un yn teimlo y byddai'r defnydd yn well mesur o amddifadedd na'r argaeledd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes data ar gael ynghylch defnydd o fand eang mewn ardaloedd bach, sy'n un o'r gofynion ar gyfer ei gynnwys yn MALIC.

- Cwestiwn 21: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y dylid pwysoli'r dangosyddion ar gyfer amseroedd teithio (i wasanaethau allweddol), a mynediad at wasanaethau band eang ar y cyd ar gyfer sgôr gyffredinol y maes?

Atebodd tri ar ddeg o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ar gyfer y rhai a roddodd sylw i'r cwestiwn yn uniongyrchol, roedd y rhan fwyaf (pum ymatebydd) yn ffafrio pwysoli amseroedd teithio i wasanaethau allweddol yn uwch na mynediad at wasanaethau band eang o fewn y maes cyffredinol, er bod cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynyddol yr ail.

Dywedodd tri o'r ymatebwyr nad oeddent yn meddwl bod cysylltiad rhwng y ddau ddangosydd, neu na ddylid eu cyfuno â'i gilydd o gwbl. Mae hyn yn awgrymu pwysoli ar wahân yn hytrach na defnyddio dadansoddiad ffactorau ar gyfer band eang ynghyd â dangosyddion amser teithio.

Dim ond dau ymatebydd ddwedodd y dylid rhoi pwysoliad uwch i'r dangosydd gwasanaethau band eang na amseroedd teithio i wasanaethau allweddol. Y prif reswm a roddwyd oedd pwysigrwydd cynyddol gwasanaethau band eang wrth gyrraedd at wasanaethau allweddol eraill.

Cytunodd un ymatebydd na ddylid gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch pwysoli nes bod cwmmpas y gwasanaethau band eang yn hysbys ar gyfer ardaloedd y mae diffyg mynediad yn effeithio arnynt, fel nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Aethant ymlaen i ddweud y dylai'r union bwysoliad gael ei gytuno gan y Grŵp Maes Mynediad at Wasanaethau a'r Grŵp Cynghori MALIC.

- Cwestiwn 22: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Mynediad at Wasanaethau?

Atebodd deunaw ymatebydd y cwestiwn hwn, ac un mater clir a gododd o'u hymatebion oedd ardaloedd gwledig yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd eu barn yn gymysg, gyda rhai ymatebwyr yn dweud bod y maes yn un pwysig i wella'r ddealltwriaeth o amddifadedd mewn cymunedau gwledig, ac eraill yn teimlo nad yw'r maes yn dal agweddau gwledig amddifadedd yn dda iawn.

Efallai y byddai gan yr ymatebwyr â buddiant penodol mewn ardaloedd gwledig ddiddordeb yn yr allbynnau canlynol a gyhoeddwyd fel rhan o MALIC 2014, sy'n edrych ar rai o'r materion a godwyd. Rydym yn bwriadu diweddarau'r dadansoddiadau hyn ar ôl MALIC 2019:

- [Erthygl ystadegol](#) yn rhoi canllawiau ynghylch sut y gellir neu na ellir defnyddio MALIC a'i ddangosyddion i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig.
- Dadansoddiad o'r [Maes Mynediad at Wasanaethau yn ôl math o anheddiad](#).

Trafnidiaeth gyhoeddus yn ardaloedd gwledig Cymru ddenodd y rhan fwyaf o sylwadau o blith y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn - saith ymatebydd. Roedd y sylwadau yn ymwneud â thoriadau i wasanaethau neu wasanaethau anaml, ac effaith hyn ar aelwydydd incwm isel sydd o bosib yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y tu allan i'r oriau prysur, ar gyfer cyflogaeth neu ryngweithio cymdeithasol. I gadarnhau, mae teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei fesur ar gyfartaledd dros sawl amser gadael / cyrraedd er mwyn adlewyrchu amllder y gwasanaeth, i raddau.

Honnodd un ymatebydd ei bod yn hanfodol bod yn berchen ar gar i gyrraedd at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan awgrymu addasiad i gyfrif am y costau ychwanegol ynghlwm â hynny.

I gadarnhau, cyhoeddwyd data dangosydd 2014 ar gyfer amseroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ar wahân, fel bod modd i ddefnyddwyr ddadansoddi'r allbynnau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus (neu breifat) yn unig, os yn berthnasol. Rydym yn cynnig gwneud yr un fath ar gyfer 2019.

Yn nhermau mesur amseroedd teithio i wasanaethau allweddol, byddai dau ymatebydd yr un wedi hoffi gweld cynnwys gwasanaethau gofal plant a banciau fel gwasanaeth allweddol. Dyfynnodd un ymatebydd dystiolaeth ynghylch cysylltiadau rhwng mynychu lleoliad gofal plant a datblygiad plant ifanc. Mae'n werth nodi ein cynlluniau newydd i gynnwys dangosyddion seiliedig ar Asesiadau Dechreuol o Blant mewn Dosbarthiadau Derbyn a data deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ym MALIC 2019. Byddai'r rhain yn fesur mwy uniongyrchol o ddatblygiad plant ifanc na mynediad at ofal plant.

Fe gafodd y gwasanaethau canlynol eu hargymell i'w cynnwys fel gwasanaeth allweddol yn y maes gan un ymatebydd; peiriannau arian twll yn y wal, cyfrifiaduron at ddefnydd y cyhoedd, ysbytai damweiniau ac achosion brys, banciau bwyd a mynediad at barciau/cyfleusterau chwarae/clybiau ieuenctid. O ran yr olaf, mae'n werth nodi bod maes yr Amgylchedd Ffisegol yn cynnwys cynigion ar gyfer dangosydd newydd ar agosrwydd at ofod gwyrdd.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn darparu rhesymeg dros beidio cynnig cynnwys rhai o'r gwasanaethau uchod ym MALIC 2019, ac yn dweud ein bod ond yn ceisio mân newidiadau i'r rhestr o wasanaethau ar gyfer y fersiwn hon er mwyn i ni ganolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau eraill yn y Mynegai, gan gynnwys dull gwell a mwy tryloyw o gyfrifo amseroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (gweler adran 8.3).

Cafwyd awgrym i gynnwys mesur mynediad ar feic yn y data trafnidiaeth gyhoeddus a ddefnyddir ar gyfer mesur amseroedd teithio i'r 8 gwasanaeth allweddol wrth ochr bws, trê, ar droed a choets genedlaethol. Mae'r ffaith nad oes digon o ddata ar gael ar gyfer rhwydweithiau beicio yn ein hatal rhag cynnwys hyn ym MALIC ar hyn o bryd. Nid oes ffynhonnell awdurdodol o ddata beicio ar gael ar hyn o bryd y gellid dibynnu arni i ddarparu model cywir o lwybrau beicio wrth ochr y rhwydwaith ffyrdd a/neu llwybrau beicio penodol lle mae'r ddau yn cysylltu. Mae rhai setiau data yn cynnwys rhannau o'r rhwydwaith beicio yn unig - fel y llwybrau beicio penodol.

O ran mesur mynediad at wasanaethau band eang, awgrymodd dau ymatebydd y dylid cynnwys data gwasanaethau symudol, gan eu bod yn debyg o fod yn fwy hygyrch yn ariannol/gorfforol i aelwydydd mewn amddifadedd incwm (gweler hefyd Gwestiwn 20). Fodd bynnag, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, ar gyfer 4G mae gennym wybodaeth i bennu safle i 10 y cant yn unig o AGEHI ar sail eu signal data symudol, ac mae'n debygol y byddai'n llai o gofio y byddem yn defnyddio diweddariad o'r data yn y dyfodol. Nid yw hyn yn bodloni meini prawf y dangosydd ar gyfer MALIC o ran bod yn nodwedd o bwys ar gyfer amddifadedd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddata cadarn ar lefel ardal fach sydd ar gael ynghylch defnydd o wasanaethau symudol.

8.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Amseroedd teithio i wasanaethau allweddol (mynediad corfforol)

Byddwn yn mesur amseroedd teithio i 8 gwasanaeth trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a 9 gwasanaeth trwy ddefnyddio trafnidiaeth breifat. Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys teithio ar: fws cyhoeddus, trên cyhoeddus, cerdded a choets genedlaethol. Car preifat yw trafnidiaeth breifat.

Bydd y dangosyddion amseroedd teithio yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli o amseroedd teithio ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i bob gwasanaeth (ac eithrio gorsafoedd petrol). Cyfrifir y pwysoliadau ar gyfer pob ardal fach gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011 ar berchnogaeth ceir a nifer yr oedolion 17 oed neu hŷn.

Bydd y gwasanaethau i'w cynnwys yr un fath â rhai MALIC 2014. Gellir gweld y manylion llawn yn [adroddiad technegol MALIC 2014](#), ac fe geir crynodeb isod. Bydd rhai mân welliannau yn cael eu gwneud lle bo'n bosibl, a'u nodi yn adroddiad technegol MALIC 2019.

Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i siop fwyd
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i feddygfa
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i ganolfan hamdden
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i ysgol uwchradd
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i fferyllfa
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i swyddfa'r post
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i ysgol gynradd
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i lyfrgell gyhoeddus
Amser teithio cyfartalog ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i orsaf betrol.

Mynediad at Wasanaethau Digidol

Gan gydnabod y sylwadau a gyflwynwyd ynghylch ei gyfyngiadau, rydym yn credu mai'r dangosydd band eang arfaethedig yw'r dangosydd procsi gorau sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch mynediad at wasanaethau digidol, ac ar y cyfan roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi ei gynnwys ym MALIC 2019.

Felly byddwn yn cynnwys dangosydd ar gyfran yr eiddo (cartrefi a busnesau bach) nad ydynt yn gallu derbyn band eang ar gyflymder o 30Mbps neu uwch (gan gynnwys eiddo heb unrhyw signal band eang). Mae hyn yn debygol o fod yn seiliedig ar data Ionawr 2019 Ofcom, disgwylir ei gyhoeddi yn hwyr Ebrill 2019.

Ar gyfer MALIC 2019, byddwn yn diwygio disgrifiad y maes fel a ganlyn: "Diben y maes hwn yw nodi amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwyd i gael mynediad at amrywiaeth o

wasanaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, boed hynny yn ffisegol neu ar-lein.”

Pwysoli

Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn defnyddio dadansoddiad ffactorau wrth edrych ar ddangosyddion amseroedd teithio, ac yna cyfuno â'r dangosydd band eang drwy bwysoliad a benderfynwyd o flaen llaw, i'w gytuno gan y grwpiau cynghori MALIC ar ôl adolygu'r data. Mae'n debyg y bydd band eang yn cael ei bwysoli'n gymharol isel gan nad yw'n debygol y bydd yn union yr un dangosydd yn cael ei ddefnyddio y tu hwnt i 2019.

8.3. Materion heb eu datrys

Cyfrifo amser teithio

Fel nodwyd yn ein dogfen ymgynghori, rydym yn gweithio gyda Champws Gwyddoniaeth Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i edrych ar ddichonoldeb defnyddio eu [pecyn PropeR](#) i gyfrifo amseroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Byddai modd i'r cyfrifiadau gael eu hailadrodd a'u hamrywio gan eraill sydd â mynediad at yr un data, rhai ohonynt yn rai cod agored. Mae Campws Gwyddoniaeth Data ONS a thîm Daearyddiaeth a Thechnoleg Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddichonoldeb cymhwysiad pen blaen, hawdd ei ddefnyddio ar gyfer yr un data ac algorithmau cyfeirio, ond prosiect datblygu hirdymor fydd hyn ar ôl darparu ystadegau i MALIC 2019. Roedd yr ymatebwyr a gyfeiriodd at y gwaith hwn yn ei gymeradwyo.

Ar gyfer cyfeirio trafndiaeth gyhoeddus, mae'r tîm Daearyddiaeth a Thechnoleg ar hyn o bryd yn edrych ar ddau wahanol algorithm a llwyfan er mwyn dod o hyd i'r mwyaf priodol ar gyfer MALIC. Mae un yn feddalwedd berchnogol a'r llall yn lyfrgell cyfeirio cod agored. Byddai'r ddau yn ystyried data ynghylch cyflymder hanesyddol/cyfartalog y rhwydwaith ffyrdd. Ar hyn o bryd mae'r manteision a'r anfanteision yn cael eu hasesu, ac fe fydd penderfyniad yn cael ei wneud yn y man.

Dull amgen – dalgylchoedd cyfnewidiol

Mae'n dogfen ymgynghori yn disgrifio gwaith gan dîm WISERD ym Mhrifysgol De Cymru i fireinio dull o asesu hygyrchedd gwasanaethau. Byddwn yn ystyried y potensial i rannu mewnbynnau a dulliau gyda'r tîm WISERD wrth i'n gwaith ar y maes hwn fynd yn ei flaen.

8.4. Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Mae adran 8.2 yn egluro bod y dangosydd band eang yn debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer MALIC 2019 yn unig, gan ystyried cyflymder y newid yng nghwmpas gwasanaethau digidol. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa ar gyfer mynegeion tu hwnt i 2019 wrth i

wasanaethau a chwmpas y setiau data esblygu, gan gynnwys adolygiad o setiau data gwasanaethau data symudol. Y nod yw bod pob MALIC yn cynrychioli'r profiadau cyfoes o amddifadedd wrth gael mynediad at wasanaethau.

O ran y gwasanaethau rydyn ni'n cyfrifo amseroedd teithio ar eu cyfer, byddwn yn adolygu'r opsiynau canlynol fel y trafodwyd yn ein dogfen ymgynghori:

- Lleoliadau a fyddai'n dal amseroedd teithio at wasanaethau y mae eu hangen yn llai aml ond sy'n bwysig (ee canolfan ddiwylliannol neu siopa, dulliau o deithio). Byddai hyn yn gofyn am rywfaent o newid i ddiffiniad y maes sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli gwasanaethau all fod yn angenrheidiol o ddydd i ddydd.
- Gwasanaethau gofal plant

Byddwn hefyd yn ailystyried defnyddio dull dalgylch cyfnewidiol (a ddisgrifir yn ein dogfen ymgynghori) yn y fersiwn nesaf o MALIC.

8.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Gweler yr adran ar bwysoli dan adran 8.2.

9. Tai

Diben y maes tai yw nodi amddifadedd trwy ddiffyg tai digonol, o ran cyflwr ffisegol y tai, amodau byw ac argaeledd. Yma, ystyr amodau byw yw addasrwydd y tai ar gyfer eu preswylwyr, er enghraifft o ran iechyd a diogelwch, ac addasiadau angenrheidiol.

9.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 23: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i gynnwys model o ddangosydd ar gyfer ansawdd tai gwael yn y maes tai, os yw'n bosibl?

O'r 15 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 13 yn croesawu cynnwys model o dangosydd newydd ar gyfer ansawdd tai gwael. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno yn gyffredinol bod manteision cael data newydd ar lefel leol yn gwrthbwysu'r anfanteision a'r heriau o ddata wedi'u modelu.

Roedd un ymatebydd wedi'i galonogi gan y symudiad oddi wrth ddibynnu ar ddata cyfrifiad 2011 yn y maes hwn. Roedd dau ymatebydd yn teimlo bod mesur ansawdd tai gwael yn gam cadarnhaol gan gofio effaith hyn ar agweddau eraill o fywyd fel iechyd ac addysg. Er nad oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, roedd rhai yn mynegi pryder ynghylch anhawster creu dangosydd cadarn sy'n gynrychioladol ar draws y stoc dai. Dywedodd un ymatebydd bod angen mwy o eglurder ynghylch sut olwg fydd ar ein model o ddangosydd a'r elfennau y bydd yn eu cynnwys, yn arbennig o ran mesurau arbed ynni a deiliadaeth. Ceir amlinelliad manylach o'r wybodaeth hon yn adran 9.2.

- Cwestiwn 24: Wrth ddatblygu'r model o'r dangosydd, a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n pwyslais arfaethedig ar beryglon (yn unol â diffiniad System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, HHSRS) ac ar gyflwr gwael i gofnodi ansawdd tai gwael?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch ein pwyslais arfaethedig ar beryglon (yn unol â diffiniad System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, HHSRS) ac ar gyflwr gwael i greu model o ddangosydd ar gyfer ansawdd tai gwael. Cytunwyd yn gyffredinol bod canolbwyntio ar HHSRS, gan ystyried elfennau allweddol o SATC nad oeddent yn rhan o fframwaith HHSRS, i'w weld yn ddull synhwyrol o weithio.

Fodd bynnag, codwyd rhai ymholiadau a phryderon. Roedd gan sawl ymatebydd ddiddordeb yn y ffordd y byddai anheddau o wahanol ddeiliadaeth yn cael eu hymgorffori i fesur ardal fach mewn ffordd gyson yr oedd modd ei chymharu. Roedd y pryderon hynny'n codi o'r gydnabyddiaeth ar gyfer rhai dibenion bod safonau asesu yn gymwys mewn gwahanol ffordd i wahanol fath o ddeiliadaeth.

I gadarnhau, nid ydym yn cynnig defnyddio data HHSRS a SATC a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gan nad oes modd priodoli hyn i ardaloedd bach ar y ffurf y maent yn cael eu casglu ar hyn o bryd, ac nad ydynt yn cwmpasu pob math o ddeiliadaeth. Mae adran 9.2 yn disgrifio'r dull gweithredu arfaethedig yn fanylach, a fydd yn gwyno yn defnyddio cyfuniad o ddata arolwg a data mwy cynhwysfawr i fodelu'r nodweddion hyn ar draws pob math o annedd.

Ar gyfer yr ymatebwyr â diddordeb mewn gwahaniaethau rhwng deiliadaeth tai ar lefel genedlaethol ac awdurdod lleol, mae amrywiol ystadegau eisoes ar gael ar adran dai ein [gwefan Ystadegau Cymru](#), gan gynnwys canlyniadau [Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#) ac [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)

- Cwestiwn 25: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i BEIDIO â chynnwys dangosydd wedi'i seilio ar ddata Tystysgrif Perfformiad Ynni yn y maes tai, ar sail ansawdd data isel?

Roedd consensws ymysg yr ymatebwyr y byddai data ynghylch arbed ynni fel yr hyn sy'n deillio o Dystysgrifau Perfformiad Ynni yn ddymunol pe bai data o ansawdd da ar gael. Roedd hollt gweddol gyfartal rhwng ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i beidio cynnwys y data yn sgil problemau ansawdd.

Roedd chwech o ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i beidio â chynnwys dangosydd wedi'i seilio ar ddata Tystysgrif Perfformiad Ynni yn y maes tai, ar sail ansawdd gwael. Ar y llaw arall, roedd chwech o ymatebwyr yn siomedig â'n cynnig i beidio â chynnwys data Tystysgrif Perfformiad Ynni. Er bod rhai cofnodion wedi dyddio ers sawl blwyddyn, awgrymodd un ymatebydd y gallai'r wybodaeth o'r ffynhonnell hon ddarparu cipolwg ar nodweddion eraill y stoc dai, fel y math o adeilad. Roedd dau ymatebydd yn nodi targedau a gafodd eu hysgogi gan asesiadau Tystysgrif Perfformiad Ynni.

Er nad ydym yn cynnig defnyddio dangosydd wedi'i lunio yn uniongyrchol o ddata Tystysgrif Perfformiad Ynni yn unig, bydd elfennau o'r data yn cael eu defnyddio i ddal effeithlonrwydd ynni mewn eiddo drwy ein model o fesur ansawdd tai gwael. Bydd gwybodaeth am anheddau fel oedran, math, maint, deiliadaeth, adeiladwaith ac ynni (ee gwresogi a math o danwydd) yn cael eu defnyddio i greu ein model o ddata. Bydd rhain yn cael eu casglu o amrywiol ffynonellau gan gynnwys data Tystysgrif Perfformiad Ynni, a ddefnyddir i fodelu oerfel gormodol mewn anheddau. Bydd gwaith dilysu data hefyd yn mynd rhagddo i nodi unrhyw anghysondeb yn y data amrwd. Pan fydd anghysondebau yn codi (hy y data o ansawdd gwael) ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y broses fodelu. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran 9.2.

Mae hefyd yn werth nodi bod data Tystysgrif Perfformiad Ynni eisoes ar gael yn rhydd i'w dadansoddi wrth ochr data MALIC, er enghraifft, wrth dargedu cynlluniau arbed ynni.

I grynhoi, rydym yn cydnabod bod mesur arbed ynni yn bwysig i helpu i nodi'r potensial ar gyfer tlodi tanwydd (gweler hefyd yr ymatebion i Gwestiwn 28). Rydym yn gobeithio y bydd modd datrys pryderon yn rhannol drwy gynnwys model o ddangosydd oerfel gormodol yn 2019, ac fe fyddwn yn adolygu data ar effeithlonrwydd ynni mewn anheddau ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

- Cwestiwn 26: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i barhau i ddefnyddio gorlenwi yn ddangosydd ar gyfer amddifadedd tai?

Roedd 11 allan o'r 13 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi ein cynnig i barhau i ddefnyddio gorlenwi yn ddangosydd ar gyfer amddifadedd tai. Awgrymodd un ymatebydd nad yw'r data hyn bellach yn ychwanegu unrhyw wybodaeth werthfawr i'r maes tai gan ystyried ei fod yn defnyddio gwybodaeth o gyfrifiad 2011. Roedd dau ymatebydd hefyd yn cydnabod bod y data wedi dyddio, ond yn dweud bod manteision i gadw'r dangosydd o ran cysondeb, yn arbennig gan y bydd data cyfrifiad newydd ar gael ar ôl 2021.

- Cwestiwn 27: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i ddileu'r dangosydd "diffyg gwres canolog" fel mesur o amddifadedd tai?

Cafwyd adborth gan 18 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, gyda mwy yn ffafrio gollwng yn hytrach na chadw "diffyg gwres canolog" fel dangosydd.

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at dystiolaeth nad diffyg gwres canolog ynddo'i hun sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, ond yn hytrach y math o system wresogi, ei effeithlonrwydd, y gallu i'w ddefnyddio a pha mor ddrud ydyw. Er eu bod yn cytuno nad yw mesur diffyg gwres canolog ynddo'i hun yn dal yn union yr hyn a fwriedir, awgrymodd yr ymatebwyr hyn bod angen cael ffordd arall o fesur effeithlonrwydd ynni neu yn ddelfrydol, tlodi tanwydd (gweler hefyd yr ymatebion i Gwestiwn 28).

Roedd dau ymatebydd yn cydnabod bod y model o ddangosyddion ar ansawdd tai gwael yr ydym yn ei chynnig o bosib yn mynd i helpu i roi sylw i'r bwlch o ran mesur effeithlonrwydd ynni. Fel y gwelir yn ein crynodeb o ymatebion i Gwestiwn 25, bydd y model o oerni gormodol mewn aelwydydd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am effeithlonrwydd ynni yr anheddau.

- Cwestiwn 28: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Tai?

Cafwyd awgrymiadau gan nifer o ymatebwyr ynghylch y dangosyddion yr hoffent eu gweld yn y maes tai yn y dyfodol. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r tri maes pwnc yn ein hymgyngoriad a wrthodwyd ar gyfer MALIC 2019, ac fe geir rhagor o fanylion amdanynt isod. Roedd awgrymiadau eraill, a geir yn yr adroddiad llawn o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn methu bodloni'r meini prawf ar gyfer dangosyddion MALIC, gan amlaf gan nad oedd data ar gael ar sail gyson neu nad oedd modd eu priodoli i ardaloedd bach.

Tlodi Tanwydd

Nododd sawl un o'r ymatebwyr bwysigrwydd nodi tlodi tanwydd, ac roedd hyn i'w weld wrth galon y sylwadau o blaid mesur effeithlonrwydd ynni (drwy ddata Tystysgrif Perfformiad Ynni), diffyg gwres canolog neu math o danwydd.

Mae'n dogfen ymgynghori yn trafod prinder y data ardal fach ar dlodi tanwydd sydd ar gael ar hyn o bryd, sy'n golygu nad oes modd ei gynnwys yn MALIC 2019. Hefyd, mae tlodi tanwydd yn ddangosydd cyfansawdd, yn ystyried incwm yn ogystal â chostau tanwydd sy'n gysylltiedig â thai, a fyddai'n anodd eu hadeiladu i'r mynegai heb achosi dyblygu ar draws meysydd. Nid yw materion sy'n ymestyn dros fwy nag un maes yn cyfateb i feini prawf y dangosyddion a'r fethodoleg ar gyfer mynegeion amddifadedd lluosog.

Ein cynnig ar gyfer MALIC 2019 yw dal aelwydydd sy'n dioddef oerni gormodol (hynny yw, y rhai â gweithdrefn Asesu Safonol neu ddosbarthiad SAP isel⁵) fel rhan o'r model o ddangosyddion ansawdd tai gwael a ddisgrifir yn Adran 9.2. Caiff incwm isel ei ddal ar wahân yn y maes Incwm.

Bydd Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai Llywodraeth Cymru yn arwain at amcangyfrifon mwy diweddar o dlodi tanwydd yn genedlaethol. Bydd y prif amcangyfrifon ar gael ym mis Ebrill 2019, gydag adroddiadau manylach i ddilyn yn yr haf, a fydd yn cynnwys modelau o amcangyfrifon o'r tebygrwydd o dlodi tanwydd mewn ardaloedd lleol. Mae amrywiol haenau o gymhlethdod yn rhan o'r gwaith modelu ar gyfer y mesur cyfansawdd hwn, yn ystyried nodweddion anheddau yn ogystal â'u preswylwyr. Mae'r gwaith newydd hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac o ganlyniad nid oes asesiad eto o ansawdd y model o ganlyniadau ar gyfer ardaloedd lleol. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i'r amcangyfrifon fod yn ddigon cadarn i ffurfio rhan o fynegai a luniwyd i ddosbarthu ardaloedd bach. Lle bo'n berthnasol, gellid defnyddio'r wybodaeth wrth ochr mesurau amddifadedd MALIC fel data cyd-destunol, ac fe fyddwn yn cyfeirio at yr amcangyfrifon cyhoeddedig yn glir o allbynnau MALIC.

⁵Mae'r dosbarthiad SAP yn seiliedig ar gostau ynni yn ymwneud â gwresogi gofod, gwresogi dŵr, awyru a goleuo, llai arbedion costau o dechnolegau arbed ynni. Caiff ei addasu yn ôl arwynebedd llawr, fel ei fod yn ei hanfod yn annibynnol ar faint yr annedd mewn unrhyw adeilad. Mae sgorau SAP ar raddfa o 1 i 100, po uchaf y rhif yr isaf y costau rhedeg.

Digartrefedd

Roedd tri ymatebydd yn annog canolbwyntio mwy ar ddigartrefedd. Dywedodd un ymatebydd mor bwysig oedd casglu tystiolaeth ynghylch digartrefedd, ond pwysleisiodd nad oedd yn awgrymu data ar hyn o fewn MALIC. Roeddent yn cytuno â'n rhesymeg bod natur byrhoedlog digartrefedd ac anawsterau mesur hyn yn gyson ar lefel ardal fach yn ei gwneud yn fesur amhriodol ar gyfer MALIC.

Fforddiadwyedd Tai

Dyweddodd rhai o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi gweld mesur o fforddiadwyedd tai ym MALIC. Yn ein dogfen ymgynghori roeddem yn disgrifio sawl anhawster wrth gymhwyso mesur o'r fath i lefel AGEHI, yn ogystal â gorgyffwrdd â'r maes incwm. Hefyd mae prinder amcangyfrifon incwm cadarn mewn ardaloedd bach, sydd yn ofynnol i bennu fforddiadwyedd. Bydd datblygiadau o ran mesur argaeledd tai yn cael eu monitro ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

9.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Rydym yn cynnig y bydd y maes tai yn cynnwys model o ddangosydd ar ansawdd tai gwael, ac y bydd yn parhau i gynnwys dangosydd ar orlenwi (mesur ystafelloedd gwely ar sail Cyfrifiad 2011).

Ceir rhagor o fanylion am bob un o'r dangosyddion arfaethedig hyn isod.

1. Gorlenwi (mesur ystafelloedd gwely o Gyfrifiad 2011) i gofnodi faint o ystafelloedd gwely sydd ar gael ac amodau byw i ryw raddau

Fe gafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014 ac ni fydd y data yn newid. Mae'n mesur canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn, ac yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011.

2. Dangosydd tai o ansawdd gwael yn ôl mesur peryglon a'r rhai sydd mewn cyflwr gwael.

Bydd y dangosydd hwn yn mesur cyfran yr anheddau â pheryglon Categori 1 o ran oerni gormodol, cwmpo neu beryglon eraill dan [System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai \(HHSRS\)](#), neu sydd mewn cyflwr gwael. Bydd y dangosydd hwn yn helpu i ddal amodau ffisegol ac amodau byw.

Dywedir bod gan annedd berygl Categori 1 o ganlyniad i oerni gormodol os oes bygythiad difrifol o dymheredd is na'r hyn sy'n dderbyniol dan do. Dywedir bod gan annedd berygl

Categori 1 o ran cwmpo os credir bod perygl difrifol o gwmpo ar y grisiau, rhwng lefelau, ar arwynebedd gwastad neu gwmpo mewn bath, cawod neu gyfleuster tebyg.

Dywedir bod annedd mewn cyflwr gwael os oes o leiaf un o brif gydrannau'r adeilad yn hen ac angen ei adnewyddu neu ei atgyweirio'n sylweddol yn sgil ei gyflwr; neu bod mwy nag un o gydrannau eraill yr adeilad yn hen ac angen ei adnewyddu neu ei atgyweirio'n sylweddol.

Dydyn ni ddim yn cynnig defnyddio data (er enghraifft HHSRS) a gyflwynir i Lywodraeth Cymru gan Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gan nad oes modd priodoli hyn i ardaloedd bach ar y ffurf y cesglir y data ar hyn o bryd, ac nad yw'n cynnwys pob deiliadaeth. Mae'r adran isod yn disgrifio'r dull gweithredu arfaethedig yn fanylach, a fydd yn gryno yn defnyddio cyfuniad o ddata arolwg a data mwy cynhwysfawr i fodelu'r nodweddion hyn ar draws pob math o annedd.

Y broses fodelu

Fel y dywedwyd yn ein dogfen ymgynghori, nid oes data ar dai o ansawdd gwael ar gael ar lefel ardal fach. O ganlyniad, byddwn yn mewnbynnu data sydd ar gael i fodel a fydd yn cyflwyno rhagamcanion ar sail tebygolrwydd am anheddau lefel unigol yng Nghymru. Bydd disgrifiad llawn ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2019, ond ceir crynodeb isod.

Bydd y dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i greu ein model o ddata yn cynnwys:

- Defnyddio data o arolygon swyddogol, lle bydd syrfewyr profiadol yn cynnal archwiliadau corfforol o sampl o eiddo o bob deiliadaeth (gan gynnwys mesur cyflwr gwael a pheryglon ar draws pob math o annedd)
- Adeiladu model o'r data er mwyn rhagweld tebygrwydd tai o ansawdd gwael ar sail amrywiol ffactorau (fel oedran, math, maint, deiliadaeth, adeiladwaith ac ynni - gwresogi a'r math o ynni)
- Cymhwyso'r model hwn i bob annedd yng Nghymru, gan ddefnyddio data o amrywiol ffynonellau (gan gynnwys data Arolwg Ordians, Cofrestrfa Tir a Thystysgrifau Perfformiad Ynni) er mwyn darparu'r elfennau gofynnol
- Meincnodi'r canlyniadau i amcangyfrifon cenedlaethol o ansawdd gwael tai o Arolwg Ansawdd Tai Cymru 2017-18.

Bydd y broses modelu uchod yn cael ei chyflawni ar wahân ar gyfer yr agweddau o ansawdd gwael tai a restrir isod, ar lefel anheddau:

- Presenoldeb Perygl Categori 1 ar gyfer Oerni Gormodol (gan ddefnyddio cyfraddau SAP fel mesur procsi)
- Presenoldeb Perygl Categori 1 ar gyfer Cwmpo

- Presenoldeb Perygl Categori 1 ar gyfer Perygl arall heblaw Oerni Gormodol neu Gwympto
- Diffyg atgyweirio

Caiff annedd ei gyfrif fel tŷ o ansawdd gwael os rhagwelir bod ganddo unrhyw un o'r nodweddion uchod. Bydd amcangyfrifon data ar gyfer anheddau unigol yn cael eu cyfuno i lefel AGEHI er mwyn darparu cyfradd o anheddau sy'n dai o ansawdd gwael i bob AGEHI. Er y bydd y dangosydd cyfansawdd hwn yn bwydo i mewn i MALIC, byddwn hefyd yn cyhoeddi data dangosydd AGEHI ar wahân ar gyfer Peryglon System Raddio Categori 1 (yn gyfan) ac ar gyfer diffyg atgyweirio.

9.3. Materion heb eu datrys

Rydym wedi contractio'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu i gynnal gwaith modelu i gynhyrchu'r dangosyddion ansawdd tai gwael a ddisgrifir uchod ar gyfer MALIC 2019. Byddwn yn adolygu cadernid y data newydd yn ofalus cyn eu cynnwys yn y Mynegai.

9.4. Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn parhau i edrych ar briodoldeb data arbed ynni a digartrefedd i'w cynnwys mewn mynegeion yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau o ran mesur argaeledd tai yn ehangach.

Rydym yn disgwyl cael gwybodaeth mwy diweddar o'r Cyfrifiad cyn fersiwn nesaf MALIC, ac fe fyddwn hefyd yn adolygu unrhyw ddangosyddion y gellid eu llunio wedyn o'r data newydd yn [Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru](#).

9.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Mae'n cynigion yn parhau i fod yr un fath â'r hyn a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys adolygiad dilynol o'r pwysoliad (o fewn y maes, a rhwng hwn a meysydd eraill), gan ystyried ansawdd y model data ar ansawdd tai gwael, a sylwadau'r grŵp maes Tai a'r grwpiau cynghori MALIC.

10. Yr Amgylchedd Ffisegol

Diben y dangosydd hwn yw mesur y ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar les neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn yr ardal.

10.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 29: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i symleiddio'r is-faes ansawdd aer?

Mynegodd naw o ymatebwyr gefnogaeth i'r cynigion hyn, gan nodi y byddent yn cynhyrchu dangosyddion a oedd yn fwy dealladwy ac yn gyson â'r Dangosyddion Cenedlaethol. Roedd dau ymatebydd yn croesawu'n benodol cynnwys dangosyddion sy'n dangos lefel y gronynnau < 10 µm a gronynnau < 2.5 µm.

Fodd bynnag, roedd dau ymatebydd yn mynegi pryderon y byddai symleiddio'r is-faes hwn, yn sgil y berthynas gymhleth rhwng llygredd aer ac iechyd y cyhoedd, yn golygu bod y data sylfaenol yn llai defnyddiol i'r defnyddwyr.

I gadarnhau, rydym yn cynnig tri dangosydd ar wahân yn canolbwyntio ar werthoedd crynodiad cyfartalog wedi'i bwysoli ar gyfer y boblogaeth o ran nitrogen deuocsid (NO₂), gronynnau < 10 µm (PM₁₀) a gronynnau < 2.5 µm (PM_{2.5}) yn eu tro. Yna bydd y dangosyddion hyn yn cael eu cyfuno i ffurfio sgôr cyffredinol is-faes ansawdd aer fel mewnbwn i'r sgôr maes yr amgylchedd ffisegol a chyfrifon cyffredinol MALIC 2019. Bydd data dangosyddion pob llygrydd aer yn cael eu cyhoeddi ar wahân. Yn ogystal â hyn, bydd gwybodaeth fanylach (gan gynnwys data ynghylch llygryddion nad ydym yn cynnig eu cynnwys ym MALIC 2019) yn parhau i fod ar gael drwy gridiau crynodiad aer DEFRA.

- Cwestiwn 30: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i gynnwys dangosydd sy'n mesur diffyg agosrwydd at fan gwyrdd hawdd ei gyrraedd yn hytrach na dangosydd sy'n mesur agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol?

Mynegodd tri ar ddeg o ymatebwyr gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Cyflwynodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau pellach ynghylch diffiniad penodol y dangosydd – gan gynnwys:

- Mynegi pryder bod y diffiniad a gytunwyd ar gyfer gofod gwyrdd yn rhy eang, ac na fydd yn gwahaniaethu rhwng mathau o ofod gwyrdd a'u defnydd (er enghraifft, rhwng rhandiroedd a pharciau)

- Yr angen i ystyried ansawdd y gofod gwyrdd wrth ochr agosrwydd a hygyrchedd (er enghraifft, adlewyrchu materion fel taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, cyfleusterau sydd ar gael)
- Pryder ynghylch defnydd posibl o'r mesur 'fel hed y fran' i gyfrifo agosrwydd.

Dywedodd dau ymatebydd y byddent yn croesawu dangosydd yn mesur diffyg agosrwydd at ofod gwyrdd yn ogystal â dangosydd yn mesur agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda thîm Daearyddiaeth a Thechnoleg Llywodraeth Cymru yn ogystal â'n cydweithwyr yn Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r dangosydd hwn ymhellach. Fel rhan o'r gwaith datblygu, byddwn yn cynnal asesiad trylwyr o ansawdd data i sicrhau bod y dangosydd yn gadarn ac yn briodol i'w ddefnyddio ym MALIC 2019. Gweler adran 10.3 isod am ragor o fanylion.

- Cwestiwn 31: A oes gennych unrhyw farn ar y pwysoli arfaethedig yn y maes hwn?

Cytunodd tri ymatebydd y dylai'r tri is-faes barhau i gael eu pwysoli yn gyfartal. Holodd un ymatebydd a ddylid pwysoli is-faes mynediad at ofod gwyrdd ychydig yn is i adlewyrchu ei fod yn is-faes newydd sy'n defnyddio data sy'n dod i'r amlwg. Oni bai bod pryderon ynghylch ansawdd data'r dangosydd mynediad at ofod gwyrdd, disgwylir y byddwn yn parhau i bwysoli'r tri is-faes yn gyfartal.

- Cwestiwn 32: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes yr Amgylchedd Ffisegol?

Yn ogystal â'r pwyntiau a nodir uchod, gwnaed rhai sylwadau ychwanegol - yn arbennig:

- tynnwyd sylw at y ffaith bod ardaloedd gwledig, ynysig sudd â mynediad cyfyngedig at fand eang, mynediad gwael at wasanaethau a phrinder opsiynau cyflogaeth (ymysg materion eraill) er hynny â mynediad da at ofod gwyrdd. Fodd bynnag, fel mesur o amddifadedd lluosog, bydd MALIC yn cymryd y materion hynny i ystyriaeth.
- holwyd a oedd manteision llesiant seilwaith gwyrdd wedi'i ystyried fel rhan o'r maes hwn.

10.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Rydym yn cynnig y dylai maes yr Amgylchedd Ffisegol gynnwys yr is-feysydd canlynol:

1) Sgôr Aelwydydd sydd mewn Perygl o Lifogydd

Cafodd dangosydd perygl llifogydd ei gynnwys ym MALIC 2014, yn seiliedig ar ddata o Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol (NaFRA). Ar gyfer MALIC 2019, byddwn yn cynnwys dangosydd perygl llifogydd yn seiliedig ar y data o Asesiad Perygl Llifogydd Cymru sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd y dangosydd yn mesur cyfran yr aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr a hefyd llifogydd dŵr wyneb. Bydd hwn ychydig yn wahanol i ddangosydd MALIC 2014 nad oedd yn cynnwys llifogydd dŵr wyneb.

Mae'r perygl yn seiliedig ar amllder disgwylidig yn hytrach na faint o ddifrod a achosir gan lifogydd. Fel MALIC 2014, rhoddir pwysoliad uwch i'r aelwydydd sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd o'u cymharu â rhai sydd mewn perygl is.

2) Amcangyfrif o'r sgôr ansawdd aer

Cynigir cyfrifo'r tri dangosydd yn seiliedig ar werthoedd crynodiad cyfartalog wedi'u pwysoli ar sail poblogaeth ar gyfer y llygryddion canlynol:

- Nitrogen deuocsid (NO₂)
- Gronynnau < 10 µm (PM₁₀)
- Gronynnau < 2.5 µm (PM_{2.5})

Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu cyfuno i ffurfio sgôr ansawdd aer cyffredinol ar gyfer yr is-faes. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r grŵp maes i gytuno ar ddull o gyfuno'r dangosyddion.

3) Sgôr diffyg agosrwydd at fan gwyrdd naturiol hygyrch

Fel nodwyd uchod, rydym ar hyn o bryd yn datblygu dangosydd sy'n mesur diffyg agosrwydd at Ofod Gwyrdd Naturiol Hygyrch. Os bydd y dangosydd hwn o ansawdd digon cadarn, rydym yn cynnig y dylid ei gynnwys ym MALIC 2019.

10.3. Materion heb eu datrys

Fel nodwyd uchod, rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn nhîm Daearyddiaeth a Thechnoleg Llywodraeth Cymru i ddatblygu dangosydd gofod gwyrdd.

Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr a, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ymdrechu i ystyried y materion diffiniol hyn yn ein methodoleg. Er enghraifft, rydym yn bwriadu hepgor gofod gwyrdd y mae'n rhaid talu i fynd ato a'r rhai sy'n debygol o apelio at neu gael eu defnyddio gan is-grŵp bach neu gul o'r gymuned leol (mynwentydd, rhandiroedd, lawntiau bowlïo ac ati).

Yn sgil argaeledd data, efallai y bydd y dangosydd hwn yn cydio mewn mesur ehangach o fynediad at ofod gwyrdd na'r hyn y mae'r ymatebwyr yn gofyn amdano. Fodd bynnag, byddwn yn medru ystyried mireinio pellach i'r dangosydd ar gyfer fersiynau o MALIC yn y dyfodol.

Mae gwaith pellach wedi'i drefnu i ddatblygu'r fethodoleg sy'n sail i'r dangosydd. Yna bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gan y grŵp maes Amgylchedd Ffisegol a'r grŵp cynghori MALIC i gytuno ar ein dull gweithredu.

Yn yr un modd, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal i gadarnhau manylion technegol y dangosyddion sy'n cynnwys is-feysydd llifogydd ac ansawdd aer.

10.4. Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Dim.

10.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Dim.

11. Diogelwch cymunedol

Nod y maes hwn yw ystyried amddifadedd sy'n gysylltiedig â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n cynnwys union brofiad o drosedd a thâ, yn ogystal â syniad pobl o ddiogelwch wrth fynd a dod yn yr ardal leol.

11.1. Ymateb i gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad

- Cwestiwn 33: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol?

Roedd cytundeb cyffredinol ymysg ymatebwyr ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol.

Roedd pedwar ymatebydd yn cefnogi rhoi ystyriaeth bellach i ddangosydd cam-drin domestig mewn fersiynau o MALIC yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar amrywiol ddangosyddion fel sylfaen i'w strategaeth i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Byddwn yn adolygu canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn ogystal ag unrhyw ddatblygiad o ran dangosyddion yn y dyfodol er mwyn penderfynu ar ymarferoldeb cynnwys dangosydd VAWDASV mewn datganiadau MALIC yn y dyfodol.

Roedd dau ymatebydd yn cydnabod bod seibr-drosedd yn faes troseddu sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar unwaith sut y byddai mesur seibr-drosedd yn cyfateb yn gysyniadol i ddiben yr is-faes Diogelwch Cymunedol. Ond, fel amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau o ran cofnodi seibr-drosedd ac yn ystyried ymhellach ar gyfer diweddariadau i'r MALIC.

Roedd dau ymatebydd yn holi am ddangosydd yn canolbwyntio ar ganfyddiadau/barn am drosedd a/neu a yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Mae data ynghylch trosedd a theimlo'n ddiogel yn cael eu casglu drwy Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn eu tro. Byddai maint y sampl yn atal defnydd o'r data hyn ym MALIC. Fodd bynnag, gallwn edrych ymhellach ar yr awgrym hwn mewn fersiynau o'r Mynegai yn y dyfodol.

Ymysg yr awgrymiadau eraill nad oedd yn bodloni'r meini prawf dangosyddion MALIC (naill ai gan nad oes data ar gael ar sail gyson, neu am nad oes modd eu priodoli i ardaloedd bach, neu am fod gorgyffwrdd posib â dangosyddion eraill) roedd y canlynol:

- Troseddau a gyflawnwyd o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau
- Damweiniau ffyrdd

- Troseddau a hunanadroddwyd

11.2. Crynodeb o ddangosyddion MALIC 2019

Rydym yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r dangosyddion yn y maes hwn.

Bydd y maes Diogelwch Cymunedol yn cynnwys y dangosyddion canlynol o ddata troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu:

- Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu
- Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu
- Lladrad a gofnodir gan yr heddlu
- Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu.

Mae'r dangosyddion hyn yn dal profiad gwirioneddol o drosedd. Fel ym MALIC 2014, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent), gan nodi ar ba bwynt y digwyddodd y drosedd a gan briodoli i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI)

Ar ben hynny, byddwn hefyd yn cynnwys y dangosyddion canlynol:

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Tanau

Mae'r dangosyddion hyn yn dal profiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a thanau yn eu tro.

11.3. Materion heb eu datrys

Dim

11.4. Dangosyddion eraill i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r dangosyddion canlynol yn y dyfodol:

- Digwyddiadau/troseddau yn ymwneud â cham-drin domestig
- Seiberdroseddu;
- Canfyddiadau o drosedd a diogelwch.

11.5. Newidiadau i'r cynigion ar ôl yr ymgynghoriad neu waith diweddar

Dim.

12. Pwysoli

- Cwestiwn 34: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dull arfaethedig o bwysoli meysydd ym MALIC 2019?

Atebodd pedwar ar ddeg o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno yn gyffredinol â'n dull arfaethedig o bwysoli meysydd, sef:

- a) Cadw'r pwysoliadau perthynol uchaf ar Incwm a Chyflogaeth fel agweddau allweddol ar amddifadedd. Rydym yn cynnig gwneud hyn o ystyried, er gwaethaf cyflwyno system les newydd, sef Credyd Cynhwysol, nad oes llawer o effaith ar y dangosyddion o ran ansawdd ar gyfer y fersiwn hon, o leiaf.
- b) Cynyddu pwysoliad y maes Tai os byddwn yn llwyddo i gynnwys data wedi'i fodelu ar dai o ansawdd gwael.
- c) Yn amodol ar b), lleihau pwysoliad rhai o'r meysydd eraill (heblaw am faes Tai) i ganiatáu ar gyfer cynnydd ym mhwysoliad Tai. Byddem hefyd yn ystyried gwelliannau a weithredwyd i feysydd eraill wrth wneud hynny.

Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cefnogi'n cynnig i gynyddu pwysoliad y maes tai. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai hefyd at yr angen i ystyried hyn yn erbyn cadernid y data a fodelwyd a'r gynrychiolaeth o dai yn yr ardal, yn arbennig os yw hyn yn golygu bod angen lleihau pwysoliad meysydd eraill. Gan ystyried hyn, bydd y penderfyniadau terfynol ar bwysoliad meysydd yn cael eu cadarnhau pan fydd gennym well dealltwriaeth o ddibynadwyedd a chadernid y dangosyddion newydd arfaethedig.

Dywedodd tri o'r ymatebwyr bod iechyd ac addysg yn bwysig, ac y dylai'r rhain gadw pwysoliad cymharol uchel neu bwysoliad uwch na 2014. O ganlyniad, roeddent hefyd yn cydnabod efallai bod angen gostwng pwysoliad meysydd eraill fel incwm a chyflogaeth.

Fodd bynnag, roedd tua hanner y rhai a ymatebodd yn cytuno y dylai incwm a chyflogaeth barhau i gael y pwysoliad cymharol uchaf (hyd yn oed wrth ostwng o lefelau 2014), ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i hyn. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylid gostwng pwysoliad y maes cyflogaeth i hwyluso cynnydd yn y meysydd tai, addysg ac iechyd.

Rydym yn cydnabod y gefnogaeth eang a ddangoswyd ar gyfer ein cynigion, ac fe fyddwn yn ystyried y sylwadau penodol wrth benderfynu ar yr union bwysoliad. Caiff hyn ei wneud mewn trafodaeth â'r grŵp llywio a'r grŵp cynghori MALIC. Bydd penderfyniadau yn seiliedig ar ansawdd data pob dangosydd pan fydd hynny'n hysbys (mae rhai yn cael eu datblygu ar hyn o bryd), yn ogystal â phwysigrwydd cysyniadol pob un mewn perthynas ag amddifadedd. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am ein rhesymeg dros y pwysoliad MALIC 2019 terfynol.

13. Camau nesaf

Roedd adran "Camau Nesaf" ein dogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn yn gwahodd sylwadau cyffredinol ar gynigion ar gyfer MALIC 2019, ac mae'r ymatebion wedi'u crynhoi dan y themâu isod.

- Cwestiwn 35: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer MALIC 2019 (nad ydynt wedi'u trafod eisoes) neu ar gyfer diweddariadau MALIC yn y dyfodol?

Amddifadedd gwledig a threfol

Dywedodd sawl ymatebydd nad yw MALIC yn medru adnabod pocedi o amddifadedd yn yr ardaloedd mwyaf gwledig. Diben MALIC yw adnabod ardaloedd o amddifadedd. Mae pobl ddifreintiedig yn ardaloedd gwledig Cymru yn dueddol o fod yn fwy gwasgaredig yn ddaeryddol na'r rhai mewn ardaloedd trefol. Mae hynny'n golygu bod pocedi o amddifadedd yn ardaloedd gwledig Cymru yn dueddol o fod ar raddfa sylweddol yn llai na hyd yn oed y ddaeryddiaeth ar raddfa fach a ddefnyddir i gynhyrchu MALIC.

Amlinellodd un ymatebydd heriau yn ymwneud ag agweddau ar amddifadedd sy'n unigryw i fywyd mewn ardaloedd trefol. Mae rhai o'r heriau hyn yn cael sylw i raddau yn ein cynigion ar gyfer MALIC 2019. Er enghraifft, bydd cyfraddau trosedd a llygredd aer, sy'n aml yn uwch mewn ardaloedd trefol, yn cael eu mesur ym MALIC.

Efallai y bydd gan ymatebwyr â buddiant arbennig mewn amddifadedd gwledig neu drefol ddiddordeb yn yr allbynnau canlynol a gyhoeddwyd fel rhan o MALIC 2014, sy'n edrych ar rai o'r materion a godwyd. Rydym yn bwriadu diweddaru'r dadansoddiadau hyn ar ôl MALIC 2019:

- [Erthygl ystadegol](#) yn rhoi canllawiau ynghylch sut y gellir neu na ellir defnyddio MALIC a'i ddangosyddion i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig.
- Dadansoddiad o'r [Maes Mynediad at Wasanaethau yn ôl math o anheddiad](#).
- Data dangosyddion cyfanredol ar gyfer ardaloedd anheddiad gwledig a threfol.

Bydd Ymchwil Data Gweinyddol Cymru yn cynnal prosiect sy'n edrych ar fesur amddifadedd yn seiliedig ar unigolion (yn hytrach nag ardal). Gall y dull hwn ddarparu cipolwg mwy defnyddiol ar amddifadedd yn y dyfodol, boed yr ardal yn un boblog iawn neu'n brin ei phoblogaeth.

Daearyddiaeth

Roedd gan ychydig o ymatebwyr ddiddordeb mewn gwybod pa ardaloedd daearyddol yr oeddem yn bwriadu darparu data dangosyddion neu broffil MALIC ar eu cyfer. Roedd un ymatebydd yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol darparu dadansoddiad fesul ward cyngor bwrdeistref sirol, ardal cymuned Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac ardaloedd cyflawni

Cymunedau yn Gyntaf. Byddwn yn ystyried y sylwadau hyn wrth adolygu ardaloedd daearyddol i'w cynnwys fel rhan o'n pecyn dosbarthu MALIC 2019. Bydd yr ystyriaethau hyn yn cael eu hadolygu gan y grwpiau cynghori a llywio MALIC.

Diben a defnydd MALIC

Gan gydnabod bod MALIC yn amlwg yn mesur amddifadedd, cyfeiriodd un ymatebydd at bwysigrwydd grymuso cymunedau, a'r effaith negyddol y gall adroddiadau'r cyfryngau ar ardaloedd difreintiedig iawn ei chael ar yr ardaloedd hynny. Byddwn yn ystyried y sylwadau ynghylch cyflwyno disgrifiad llawnach o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig wrth lunio allbynnau MALIC 2019.

Roedd ymatebydd arall yn cyfeirio at roi mwy o bwyslais ar gryfderau yn hytrach na mesur diffygion, a'r angen i ystyried swyddogaeth MALIC yn y cyd-destun hwn. Byddwn yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau allweddol eraill ar gyfer dadansoddiadau seiliedig ar ardaloedd lleol yn allbynnau MALIC 2019, boed yn canolbwyntio ar amddifadedd neu beidio.

Cyfeiriodd un ymatebydd at gamddefnydd posib o MALIC wrth ddyrannu adnoddau. Bydd ein hallbynnau MALIC yn cael eu hategu gan ganllawiau, gan gynnwys pethau i'w gwneud a phethau i beidio eu gwneud, ac rydym yn bwriadu cynhyrchu canllawiau penodol at ddibenion fel dyrannu adnoddau, er mwyn helpu i atal camddefnydd.

Sylwadau eraill

Roedd nifer o'r sylwadau a wnaed yn ymwneud â meysydd penodol, ac maent yn cael eu trafod ym mhenodau meysydd penodol yr adroddiad hwn a/neu yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol. Roedd rhai o'r awgrymiadau yn methu bodloni ein meini prawf ar gyfer dangosyddion, fel y gwelir yn y ddogfen ymgynghori, yn arbennig o ran bod yn fesuradwy ar lefel ardal fach a ddefnyddir ar gyfer MALIC.

Roedd dau o'r ymatebwyr yn dweud bod unigrwydd yn fater pwysig yn ymwneud ag amddifadedd sydd ar goll o'n dogfen ymgynghori. Fe gafodd mesur unigrwydd ei drafod gan grŵp maes Iechyd MALIC 2019 wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae Dangosydd Cenedlaethol yn ymwneud ag unigrwydd, gyda'r data'n dod o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Rhan o'n meini prawf ar gyfer dangosyddion yw bod rhaid i ddata cadarn fod ar gael ar gyfer ardal fach, ac ar hyn o bryd nid yw maint sampl yr Arolwg Cenedlaethol yn caniatáu ar gyfer amcangyfrifon o unigrwydd ar lefel ardal fach. Rhan o resymeg yr ymatebwyr ar gyfer cefnogi mesur o unigrwydd oedd ei effaith negyddol ar iechyd meddwl, ac fe ddylid nodi ein bod yn edrych ar y defnydd o ddata meddygon teulu i fesur diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl yn uniongyrchol ym MALIC 2019 (gweler adran 6.2).

Y camau nesaf ar gyfer MALIC 2019

Ceir amlinelliad o'n dangosyddion arfaethedig (ar ôl yr ymgynghoriad) yn adran 2.4, ac fe fyddwn yn parhau â'r gwaith datblygu lle bynnag y bo gofyn dros y misoedd nesaf. Bydd MALIC 2019 yn cael ei lunio yn ystod haf 2019, a'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2019. Bydd unrhyw newyddion pellach yn y cyfamser yn cael ei gyhoeddi ar wefan MALIC.

Atodiad 1 - Sefydliadau a ymatebodd i ymgynghoriad MALIC

Prifysgol Bangor
BHF Cymru
BLF Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Cyngor ar Bopeth
Cartrefi Cymunedol Cymru
Cyngor Sir Ddinbych
Fields in Trust Cymru
Cyngor Gwynedd
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Gwasanaeth Tai - Cyngor Torfaen
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Achub y Plant
Chwaraeon Cymru
Sustrans
Cyngor Abertawe
Gofal Canser Tenovus
Y Wallich
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

a naw Ymateb Unigol